Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

LP12

# Gwneud a chofrestru eich atwrneiaeth arhosol

canllawiau

**Penderfyniadau ariannol**

gan gynnwys:

- delio â'ch cyfrifon banc a'ch cyfrifon cynilo
- buddsoddi arian neu werthu buddsoddiadau
- talu eich biliau
- prynu neu werthu eich tŷ

**Penderfyniadau ynglŷn ag iechyd a gofal**

gan gynnwys:

- pa driniaeth feddygol gewch chi, er enghraifft triniaeth cynnal bywyd
- ymhle y byddwch chi'n byw
- materion o ddydd i ddydd, er enghraifft eich deiet a'ch trefniadau beunyddiol

# Mynegai


| | | |
|---|---|---|
| **Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn** | | **3** |
| **Rhan A** | **Gwneud eich atwrneiaeth arhosol (LPA)** | 7 |
| Rhan A1 | Y rhoddwr | 8 |
| Rhan A2 | Yr atwrneiod | 10 |
| Rhan A3 | Sut y dylai eich atwrneiod wneud penderfyniadau? | 13 |
| Rhan A4 | Atwrneiod wrth gefn | 17 |
| Rhan A5 | Pa bryd y caiff eich atwrneiod wneud penderfyniadau?<br>(LPA ar gyfer penderfyniadau ariannol yn unig) | 22 |
| Rhan A5 | Triniaeth cynnal bywyd<br>(LPA ar gyfer penderfyniadau ynglŷn ag iechyd a gofal yn unig) | 24 |
| Rhan A6 | Pobl i'w hysbysu pan gaiff yr LPA ei chofrestru | 27 |
| Rhan A7 | Dewisiadau a chyfarwyddiadau | 28 |
| Rhan A8 | Eich hawliau a'ch cyfrifoldebau cyfreithiol | 33 |
| Rhan A9 | Llofnod: y rhoddwr | 35 |
| Rhan A10 | Llofnod: darparwr y dystysgrif | 37 |
| Rhan A11 | Llofnod: atwrnai neu atwrnai wrth gefn | 39 |
| **Rhan B 1** | **Cofrestru eich atwrneiaeth arhosol (LPA)** | **40** |
| Rhan B2 | Cofrestru eich atwrneiaeth arhosol (LPA) | 41 |
| Rhan B3 | At bwy yr hoffech inni anfon yr LPA? | 41 |
| Rhan B4 | Ffi ymgeisio | 42 |
| Rhan B5 | Llofnod | 44 |
| **Rhan C** | **Pobl i'w hysbysu** | **45** |
| **Rhan D** | **Dileu eich LPA, pryderon ynghylch atwrneiod, polisi preifatrwydd a chysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus** | **47** |

# Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn yn rhoi gwybodaeth ichi am wneud a chofrestru eich atwrneiaeth arhosol. (LPA) Does dim rhaid ichi eu darllen nawr. Gallwch ddechrau llenwi'ch ffurflen LPA ac edrych ar y canllawiau os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

## Eich atwrneiaeth arhosol (LPA)

Dogfen gyfreithiol yw LPA sy'n gadael i chi (y 'rhoddwr') ddewis pobl rydych yn ymddiried ynddynt ('atwrneiod') i wneud penderfyniadau ariannol neu benderfyniadau ynglŷn ag iechyd a gofal ar eich rhan.

Bydd LPA yn cael ei defnyddio'n bennaf os na fydd gennych y galluedd meddyliol i ddeall a gwneud penderfyniadau drosoch eich hun. Mae angen i chi fod gyda'r galluedd meddyliol i wneud LPA.

> Galluedd meddyliol yw'r gallu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud.

Dim ond ar gyfer Cymru a Lloegr y mae'ch LPA. Mae'n annhebygol o weithio yn unman arall, felly os ydych yn dymuno iddo wneud hynny, efallai y dylech geisio cyngor cyfreithiol.

Does dim angen cyfreithiwr i wneud LPA, heblaw bod eich gofynion yn anghyffredin neu'n benodol.

Mae adrannau yn ffurflen yr LPA efallai y byddwch yn dymuno cael cyngor cyfreithiol ac mae'r rheini wedi'u marcio â'r symbol hwn:



Eich dewis chi fydd penderfynu a ydych am gael cyngor cyfreithiol i lenwi'r adrannau hyn.

## Gwneud eich LPA; pa fath?

Bydd yn rhaid ichi ddewis pa fath o benderfyniad y byddwch angen cymorth yn ei gylch. Mae dau fath o LPA, ac maen nhw'n ymwneud â dau fath o benderfyniad:

- arian, cyllid ac eiddo
- iechyd a gofal

Mae ffurflen ar wahân ar gyfer pob LPA. I ddewis y ddau fath, llenwch y ddwy ffurflen.

## Materion ariannol: defnyddio ffurflen LP1F

Gallai penderfyniadau ariannol gynnwys:

- agor, cau a defnyddio'ch cyfrifon banc a'ch cyfrifon cymdeithas adeiladu
- hawlio, cael a defnyddio'ch budd-daliadau, eich pensiynau a'ch lwfansau
- talu biliau'r cartref, biliau gofal a biliau eraill
- buddsoddi arian neu werthu buddsoddiadau
- prynu neu werthu eich tŷ

Cewch ddewis a fydd eich atwrneiod yn gweithredu ar eich rhan yn syth ar ôl cofrestru'r LPA neu dim ond pan na fyddwch yn gallu deall a gwneud penderfyniadau mwyach (gweler rhan A5 o'r canllawiau hyn).

Does dim rhaid ichi fod yn berchen ar eich cartref eich hun nag ar lawer o arian er mwyn gwneud LPA ar gyfer penderfyniadau ariannol. Er enghraifft, os yw'n anodd ichi reoli eich cyfrif banc neu'ch biliau ar eich pen eich hun, efallai y byddwch yn hoffi cael rhywun i'ch helpu.

Cewch benodi gwahanol atwrneiod i ddelio â'ch materion ariannol personol a'ch materion busnes. I wneud hyn, llenwch ddwy ffurflen LP1F.

## Penderfyniadau ynglŷn ag iechyd a gofal: defnyddiwch ffurflen LP1H

Gallai penderfyniadau ynglŷn ag iechyd a gofal gynnwys:

- rhoi neu wrthod caniatâd ar gyfer gofal iechyd
- aros yn eich cartref eich hun a chael help a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol
- symud i ofal preswyl a dod o hyd i gartref gofal da
- materion o ddydd i ddydd er enghraifft eich deiet, eich gwisg neu'ch trefniadau beunyddiol

Dim ond pan na fydd gennych alluedd meddyliol y caiff eich atwrneiod wneud penderfyniadau drosoch.

Mae'r LPA iechyd a gofal yn cynnwys un adran ar gyfer un penderfyniad pwysig iawn. Cewch ddewis a ddylai eich atwrneiod neu eich meddygon wneud penderfyniadau ynglŷn â derbyn neu wrthod triniaeth feddygol i'ch cadw'n fyw, os na fyddwch yn gallu gwneud neu ddeall y penderfyniad hwnnw eich hun.

Darllenwch ragor am driniaeth cynnal bywyd yn rhan A5 o'r canllawiau hyn.

Does dim rhaid i'ch problemau iechyd neu ofal fod yn rhai cymhleth i wneud LPA. Ffordd o gynllunio ar gyfer eich gofal yw hyn rhag ofn na fyddwch yn gallu gwneud penderfyniadau drosoch eich hun yn y dyfodol.

## Y bobl sy'n rhan o'ch LPA

Bydd angen i chi (y rhoddwr) ddewis pobl ar gyfer eich LPA. Trafodwch hyn â nhw cyn ichi eu henwi yn eich ffurflen LPA.

Cyn dechrau'r ffurflen swyddogol, mae tudalen ichi nodi pawb sy'n rhan o'ch LPA - does dim rhaid ichi lenwi hon, ond fe allai fod yn ddefnyddiol.

## I wneud LPA, rhaid ichi gael y bobl hyn:

**Rhoddwr:** gweler rhan A1 o'r canllawiau hyn.

**Atwrneiod:** gweler rhan A2 o'r canllawiau hyn.

**Darparwr tystysgrif:** gweler rhan A10 o'r canllawiau hyn.

**Tystion:** rhaid i rywun diduedd dystio i chi a'ch atwrneiod yn llofnodi'ch LPA.
Chewch chi ddim tystio i lofnodion eich atwrneiod a chaiff eich atwrneiod ddim tystio i'ch llofnodion chi.

## Pobl y gallech fod yn dymuno'u cynnwys yn eich LPA

**Atwrneiod wrth gefn:** gweler rhan A4 o'r canllawiau hyn.

**Pobl i'w hysbysu:** gweler rhan A6 o'r canllawiau hyn.

## Cofrestru eich LPA

Cyn ichi allu defnyddio'ch LPA, rhaid ichi ei chofrestru gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae'n costio £110 i gofrestru'ch LPA er mwyn iddi fod yn barod i'w defnyddio. Y peth gorau yw gwneud cais i gofrestru'ch LPA cyn gynted ag y byddwch wedi llenwi'r ffurflen.

## Helpu ffrind i wneud LPA

Os ydych yn helpu ffrind neu berthynas gydag LPA drwy lenwi'r ffurflen ar eu rhan, rhaid i'r person hwnnw wneud yr holl ddewisiadau wrth

wneud yr LPA. Os nad yw'n gallu gwneud y dewisiadau hyn yn annibynnol mwyach, chewch chi ddim gwneud LPA drostynt. Cewch wneud cais i'r Llys Gwarchod, a fydd yn eich penodi chi neu rywun arall i'w helpu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.gov.uk/become-deputy

## Pecyn eich LPA

Mae'r holl ddogfennau sydd eu hangen arnoch i wneud a chofrestru'ch LPA wedi'u hanfon atoch.

Sef:

- ffurflen LP1F i wneud LPA ariannol
- ffurflen LP1H i wneud LPA iechyd a gofal
- ffurflen LP3 os ydych am hysbysu pobl pan gaiff eich LPA ei hanfon i'w chofrestru
- dalenni parhad 1 i 4 - peidiwch â defnyddio'r rhain oni bai bod ffurflen yr LPA yn dweud wrthych am eu defnyddio
- ffurflen LPA120 i wneud cais am ostyngiad ar y ffi os ydych ar incwm isel

Os ydym wedi anfon pecyn atoch a bod unrhyw rai o'r rhain ar goll, ffoniwch ni ar 0300 456 0300 neu gallwch eu lawrlwytho yn www.gov.uk/government/publications/make-a-lasting-power-of-attorney

## Gwneud eich LPA ar lein

Gallwch hefyd ddefnyddio ein gwasanaeth digidol i wneud eich LPA. Mae'n gyflym ac yn hawdd. Mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan, www.gov.uk/power-of-attorney

## Os oes angen help arnoch i wneud eich LPA ar lein

Os hoffech wneud eich LPA ar lein ond eich bod yn ansicr wrth ddefnyddio cyfrifiaduron a gwefannau, ffoniwch ein canolfan gyswllt ar 0300 456 0300 ac fe geisiwn eich helpu.

## Beth yw 'galluedd meddyliol'?

Mae eich LPA - a'r canllawiau hyn - yn sôn llawer am 'alluedd meddyliol'. Mae'n bwysig eich bod yn deall y syniad hwn cyn ichi wneud LPA.

'Galluedd meddyliol' yw'r gallu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud. Mae rhywun sydd â galluedd meddyliol fan leiaf yn deall yn gyffredinol:

- y penderfyniad y mae angen ei wneud
- pam mae angen gwneud y penderfyniad
- unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad
- beth sy'n debygol o ddigwydd pan fyddant yn ei wneud

Dylent allu cyfleu eu penderfyniad ar lafar, drwy wneud arwyddion, ystumiau neu mewn rhyw fodd arall.

Weithiau, bydd pobl yn gallu gwneud rhai penderfyniadau ond nid oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau eraill. Er enghraifft, efallai y gall rhywun benderfynu ar beth i'w brynu i ginio ond na all ddeall a threfnu yswiriant i'r cartref.

## Asesu galluedd meddyliol.

Er mwyn canfod a oes gan rywun alluedd meddyliol i wneud penderfyniad ai peidio bydd angen ichi ateb 'oes' i'r ddau gwestiwn hyn:

1. Oes ganddynt broblem feddyliol neu broblem ymennydd sy'n rhwystro'u hymennydd neu eu meddwl rhag gweithio'n iawn?
2. Ydy'r broblem honno'n achosi cymaint o anhawster iddyn nhw erbyn hyn fel na allan nhw wneud y penderfyniad penodol hwn ar yr adeg y mae angen ei wneud?

Mae 'methu â gwneud y penderfyniad penodol hwn' yn golygu nad yw'r unigolyn yn gallu:

- deall gwybodaeth berthnasol am y penderfyniad y mae angen ei wneud

- cadw'r wybodaeth honno yn eu meddwl yn ddigon hir i benderfynu
- pwyso a mesur y wybodaeth er mwyn penderfynu
- cyfleu eu penderfyniad - gallai hyn fod drwy siarad, defnyddio iaith arwyddion neu hyd yn oed gwasgu llaw neu glipian llygaid.

Weithiau - yn enwedig os bydd angen gwneud penderfyniadau mawr neu gymhleth - efallai y byddwch am gael cyngor proffesiynol, er enghraifft, gan feddyg teulu, seiciatrydd neu seicolegydd yr unigolyn.

## Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cynnwys LPA. Mae Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn esbonio rhagor ac mae'n cynnig enghreifftiau, gan gynnwys sut y mae'n rhaid i atwrneiod weithredu. Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am alluedd meddyliol.

> Gallwch weld Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar lein yn www.gov.uk/opg/mca-code

Gallwch hefyd brynu fersiwn wedi'i hargraffu gan y Llyfrfa: www.tsoshop.co.uk

Efallai y gall eich llyfrgell leol helpu os na allwch fynd ar lein eich hun.

## Gwneud penderfyniadau drosoch chi

Gall atwrneiod wneud rhai penderfyniadau ar eich rhan, ond ni chânt wneud fel y maent yn ei ddymuno. Rhaid iddyn nhw bob tro weithredu er eich lles gorau.

Mae Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn trafod hyn yn fwy manwl o lawer. Mae'n rhestru pum prif egwyddor y mae'n rhaid i atwrnai eu dilyn wrth benderfynu a ddylai weithredu ar eich rhan a sut:

1. Rhaid i'ch atwrneiod dybio eich bod yn gallu gwneud penderfyniadau drosoch eich hun heblaw bod sicrwydd na allwch chi wneud hynny.
2. Rhaid i'ch atwrneiod eich helpu i wneud cynifer o'ch penderfyniadau eich hun ag y gallwch chi. Rhaid iddyn nhw i gyd gymryd pob cam ymarferol i'ch helpu i benderfynu. Dim ond os na fyddan nhw wedi llwyddo i'ch helpu i benderfynu drwy'r camau hynny y cân nhw eich trin fel petaech yn methu â gwneud penderfyniad.
3. Rhaid i'ch atwrneiod beidio â'ch trin fel petaech yn methu â gwneud penderfyniad dim ond oherwydd eich bod yn gwneud penderfyniad annoeth.
4. Rhaid i'ch atwrneiod weithredu a gwneud penderfyniadau er eich lles gorau pan na fyddwch yn gallu penderfynu.
5. Cyn i'ch atwrneiod benderfynu neu weithredu ar eich rhan, rhaid iddyn nhw ystyried a allan nhw wneud penderfyniad neu weithredu mewn ffordd sy'n cyfyngu llai ar eich hawliau a'ch rhyddid ond sy'n dal i gyrraedd y nod.

Rhaid i atwrneiod ddilyn yr egwyddorion hyn o hyd.

# Rhan A - gwneud eich LPA

Dewiswch ffurflen LP1F i wneud LPA ar gyfer penderfyniadau ariannol neu LP1H i wneud LPA ar gyfer penderfyniadau ynglŷn ag iechyd a gofal.

Dechreuwch lenwi’r ffurflen yn awr.

Does dim angen ichi ddarllen y canllawiau hyn gyntaf. Defnyddiwch nhw wrth ichi lenwi’r ffurflen.

Cyn dechrau’r ffurflen swyddogol, mae tudalen ichi nodi pawb sy’n rhan o’ch LPA - does dim rhaid ichi lenwi hon, ond fe allai fod yn ddefnyddiol.

Pan welwch chi’r gair ‘chi’ o hyn ymlaen, yn rhan A o’r canllawiau hyn, mae’n golygu’r rhoddwr: y sawl sy’n penodi pobl eraill i wneud penderfyniadau ar ei ran.

Mae tudalennau cyntaf go iawn y ffurflenni’n edrych fel hyn:


Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus


Llinell gymorth 0300 456 0300

**Atwrneiaeth arhosol ar gyfer iechyd a lles**

Adran 1

**Y rhoddwr**

Help?


Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Llinell gymorth 0300 456 0300

**Atwrneiaeth arhosol ar gyfer eiddo a materion ariannol**

Adran 1

**Y rhoddwr**

Help?

Os nad yw eich ffurflenni’n edrych fel hyn, efallai eich bod yn defnyddio hen fersiynau. Lawrlwythwch y rhai diweddaraf, neu ffoniwch ganolfan gyswllt Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar 0300 456 0300 i ofyn amdanyn nhw.

# Rhan A1 - y rhoddwr

## Llenwch adran 1



Rhowch eich manylion yn adran 1 o ffurflen yr LPA. Gallwch hefyd roi cyfeiriad e-bost, ond mae hynny'n ddewisol.

Rhowch unrhyw enwau eraill y byddwch yn eu defnyddio, er enghraifft eich enw priod. Os nad yw eich LPA yn cynnwys yr holl enwau sy'n cael eu defnyddio ar eich cyfer, fe all hyn achosi dryswch neu oedi os bydd angen i'ch atwrneiod ei ddefnyddio.

## Rhagor o wybodaeth

### Pwy gaiff fod yn rhoddwr?

I un person yn unig y mae LPA. Cewch wneud LPA:

- os ydych chi'n 18 oed o leiaf
- os oes gennych y galluedd meddyliol i wneud hynny

'Galluedd meddyliol' yw'r gallu i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y mae angen ei wneud.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cael gwneud LPA. Serch hynny, fe allai cymhlethdodau godi oherwydd:

- preswyliaeth - os ydych yn byw neu fod gennych eiddo y tu allan i Gymru a Lloegr
- methdaliad - os ydych chi'n fethdalwr neu'n destun gorchymyn rhyddhad dyled ac am wneud LPA ar gyfer eich penderfyniadau ariannol

Mae rhagor o wybodaeth am y cymhlethdodau hyn ar y dudalen hon ac ar dudalen 9.

### A gaiff rhywun helpu'r rhoddwr i lenwi'r ffurflen?

Caiff. Ond, os bydd rhywun arall yn llenwi'r ffurflen ar eich rhan, chi o hyd sy'n gorfod dewis beth fydd yn cael ei gynnwys yn eich LPA. Dim ond chi sy'n cael rhoi'r pŵer i bobl eraill wneud penderfyniadau ar eich rhan drwy'ch LPA.

### Cymhlethdodau: preswyliaeth ac eiddo

Mae LPA ar gyfer pobl sy'n byw neu sy'n berchen ar asedau yng Nghymru a Lloegr. Efallai na fydd eich LPA yn gweithio mewn gwledydd eraill, gan gynnwys yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Efallai yr hoffech gael cyngor cyfreithiol:

- os ydych yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr
- os oes gennych eiddo y tu allan i Gymru a Lloegr a'ch bod yn gwneud LPA ar gyfer penderfyniadau ariannol.
- os oes gennych gynlluniau i symud allan o Gymru a Lloegr
- os oes rhesymau eraill sy'n gysylltiedig â lle rydych yn byw sy'n cymhlethu'ch sefyllfa

## Cymhlethdodau: methdaliad a gorchmynion rhyddhad dyled (LPA ar gyfer penderfyniadau ariannol yn unig)

Mae ‘na reolau ynglŷn â methdaliad a gorchmynion rhyddhad dyled ar gyfer LPA eiddo a materion ariannol.

Os ydych yn fethdalwr neu’n destun gorchymyn rhyddhad dyled, gallwch wneud, llofnodi a chofrestru LPA ar gyfer penderfyniadau ariannol. Serch hynny, fydd gan eich atwrneiod ddim pŵer dros eich eiddo i gyd.

Os yw hyn yn berthnasol i chi, dylech feddwl am gael cyngor cyfreithiol cyn ichi wneud eich LPA.

Os byddwch yn mynd yn fethdalwr neu’n destun gorchymyn rhyddhad dyled ar ôl gwneud neu gofrestru’ch LPA, bydd yn cael ei dileu.

Os bydd atwrnai’n dod yn fethdalwr neu’n destun gorchymyn rhyddhad dyled, ni chaiff yr atwrnai hwnnw weithredu ar eich rhan bellach o dan eich LPA ar gyfer penderfyniadau ariannol.

Nid yw methdaliad yn effeithio ar LPA iechyd a gofal.

# Rhan A2 - yr atwrneiod

## Llenwch adran 2



Rhowch enwau, cyfeiriadau a dyddiadau geni eich atwrneiod.

Does dim ots ym mha drefn y byddwch yn ysgrifennu manylion yr atwrneiod ar y ffurflen. Mae pob atwrnai yr un mor bwysig â'i gilydd.

Os ydych am gael mwy na phedwar atwrnai, rhowch X yn y blwch 'Rhagor o atwrneiod' ar y dudalen hon.  Defnyddiwch gopi o ddalen barhad 1, sydd â'r teitl 'Pobl ychwanegol' arni. Ar gyfer pob atwrnai ychwanegol, marciwch y blwch 'Atwrnai' ar y ddalen ac ychwanegwch eu manylion. Rhaid ichi lofnodi a dyddio dalen barhad 1 cyn ichi lofnodi'r ffurflen LPA yn adran 9.

Os bydd angen mwy nag un ddalen barhad, gallwch wneud copïau.

Os ydych am ddewis corfforaeth ymddiriedolaeth yn atwrnai ar gyfer eich LPA ynglŷn â phenderfyniadau ariannol, llenwch y manylion yma a rhowch 'X' yn y blwch 'corfforaeth ymddiriedolaeth'. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ysgrifennu'r union enw y mae'r gorfforaeth ymddiriedolaeth yn ei ddefnyddio.

Rhaid i gynrychiolwyr y gorfforaeth ymddiriedolaeth lenwi a llofnodi dalen barhad 4.

# Rhagor o wybodaeth

Bydd y bobl y byddwch yn eu dewis i wneud penderfyniadau ar eich rhan yn cael eu galw'n 'atwrneiod'.

Rhaid ichi gael o leiaf un atwrnai. Cewch ddewis faint bynnag ag y dymunwch chi ond fe allai dewis gormod o atwrneiod wneud pethau'n anodd, oherwydd bydd angen iddyn nhw gydweithio.

Gwnewch yn siŵr bod pob unigolyn yn cytuno i fod yn atwrnai cyn ichi ei enwi yn eich LPA.

Wrth ddethol atwrneiod, meddyliwch:

- faint ohonyn nhw rydych am eu penodi ac a fyddan nhw'n gallu cydweithio â'i gilydd
- a ydych yn ymddiried ynddyn nhw i weithredu er eich lles gorau
- pa mor dda ydych chi'n adnabod eich gilydd ac i ba raddau y maen nhw'n eich deall chi
- pa mor barod fyddan nhw i wneud penderfyniadau ar eich rhan
- pa mor dda ydyn nhw am drefnu eu materion eu hunain, er enghraifft pa mor dda ydyn nhw am ofalu am eu harian eu hunain

Peidiwch â theimlo'i bod yn rhaid ichi ddewis rhywun dim ond oherwydd eich bod yn poeni am eu pechu. Os ydych am iddyn nhw deimlo'n rhan o'r peth, gallech eu gwneud nhw'n 'bobl i'w hysbysu' yn lle. (Gweler rhan A6 o'r canllawiau hyn.)

### Pwy gaiff fod yn atwrnai?

O safbwynt cyfreithiol, 'atwrnai' yw rhywun sy'n cael gweithredu ar ran rhywun arall.

Does dim angen i atwrneiod fod yn gyfreithwyr. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn dewis aelodau o'r teulu, ffrindiau a phobl eraill y maen nhw'n ymddiried ynddyn nhw ac sydd heb ddim cefndir cyfreithiol. Os nad yw atwrnai'n berson proffesiynol, y peth pwysig yw eich bod yn 'nabod eich gilydd yn dda, eu bod yn parchu eich barn ac y byddan nhw'n gweithredu er eich lles gorau.

Gallwch ofyn i unrhyw un sydd â galluedd meddyliol, sy'n 18 oed neu'n hŷn i fod yn atwrnai ichi, gan gynnwys:

- eich gwraig, eich gŵr, eich partner sifil neu'ch partner
- aelod o'r teulu
- ffrind agos
- gweithiwr proffesiynol, er enghraifft cyfreithiwr

Rhaid i atwrneiod lofnodi'ch LPA ar ôl ichi lofnodi adran 9 ac ar ôl i ddarparwr y dystysgrif lofnodi adran 10. Rhaid iddyn nhw lofnodi cyn gynted ag y bydd yn rhesymol bosibl ar ôl i ddarparwr y dystysgrif lofnodi - a gorau oll os bydd hyn ar yr un diwrnod.

## Beth mae'n rhaid i atwrneiod ei wneud

Gall atwrneiod wneud rhai penderfyniadau ar eich rhan, ond ni chânt wneud fel y maent yn ei ddymuno. Rhaid iddyn nhw bob tro weithredu er eich lles gorau.

Mae Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn trafod hyn yn fwy manwl o lawer. Mae'n rhestru pum prif egwyddor y mae'n rhaid i atwrnai eu dilyn wrth benderfynu a ddylai weithredu ar eich rhan a sut:

- Rhaid i'ch atwrneiod dybio eich bod yn gallu gwneud penderfyniadau drosoch eich hun heblaw bod sicrwydd na allwch chi wneud hynny.
- Rhaid i'ch atwrneiod eich helpu i wneud cynifer o'ch penderfyniadau eich hun ag y gallwch chi. Rhaid iddyn nhw i gyd gymryd pob cam ymarferol i'ch helpu chi i benderfynu. Dim ond os na fyddan nhw wedi llwyddo i'ch helpu i benderfynu drwy'r camau hynny y cân nhw eich trin fel petaech yn methu â gwneud penderfyniad.
- Rhaid i'ch atwrneiod beidio â'ch trin fel petaech yn methu â gwneud penderfyniad dim ond oherwydd eich bod yn gwneud penderfyniad annoeth.
- Rhaid i'ch atwrneiod weithredu a gwneud penderfyniadau er eich lles gorau pan na fyddwch yn gallu penderfynu.
- Cyn i'ch atwrneiod benderfynu neu weithredu ar eich rhan, rhaid iddyn nhw ystyried a allan nhw wneud penderfyniad neu weithredu mewn ffordd sy'n cyfyngu llai ar eich hawliau a'ch rhyddid ond sy'n dal i gyrraedd y nod.

Rhaid i atwrneiod ddilyn yr egwyddorion hyn o hyd.

Gallwch weld Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar lein yn www.gov.uk/opg/mca-code

## Atwrneiod LPA eiddo a materion ariannol

Bydd rhai pobl yn dewis atwrnai proffesiynol, cyfreithiwr er enghraifft, ar gyfer eu LPA ariannol.

Os byddwch yn penodi atwrnai proffesiynol ar gyfer LPA eiddo a materion ariannol, cyfreithiwr er enghraifft, rhaid ichi enwi unigolyn. Chewch chi ddim rhoi enw swydd neu enw cwmni'n unig.

Bydd atwrneiod proffesiynol fel rheol yn codi tâl. Gofynnwch faint y byddan nhw'n ei godi arnoch. Rhaid ichi ychwanegu cyfarwyddiadau yn adran 7 yn dweud faint rydych wedi cytuno i'w dalu iddyn nhw. (Gweler rhan A7 o'r canllawiau hyn.)

Ni chaiff methdalwr sydd heb ei ryddhau neu rywun sy'n destun gorchymyn rhyddhad dyled fod yn atwrnai ar gyfer LPA eiddo a materion ariannol.

Nid yw methdaliad a gorchmynion rhyddhad dyled ddim yn effeithio ar LPA iechyd a lles.

## Corfforaeth ymddiriedolaeth - LPA eiddo a materion ariannol yn unig (ffurflen LP1F)

Os ydy materion ariannol rhywun yn gymhleth neu os nad oes ganddynt neb i reoli eu materion ariannol, efallai y byddai'n well ganddynt ddewis corfforaeth ymddiriedolaeth yn atwrnai. Fel rheol, banc masnachol neu gwmni cyfreithwyr fydd hyn.

Dylech ofyn faint y byddan nhw'n ei godi arnoch. Efallai yr hoffech gael cyngor cyfreithiol os ydych yn ystyried dewis corfforaeth ymddiriedolaeth yn atwrnai.

## Atwrneiod LPA iechyd a lles

Rhaid i atwrnai ar gyfer LPA iechyd a lles fod yn unigolyn, nid yn gwmni. Fe gewch ddewis faint bynnag o atwrneiod ag sydd eu hangen arnoch.

## Pwy gaiff ddim bod yn atwrnai

Ni chaiff rhywun sy'n fethdalwr ar hyn o bryd neu rywun sydd â gorchymyn rhyddhad dyled fod yn atwrnai mewn LPA ar gyfer penderfyniadau ariannol.

Nid yw methdaliad a gorchmynion rhyddhad dyled yn effeithio ar LPA iechyd a lles.

Ni chaiff rhywun sydd ar restr waharddedig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fod yn atwrnai - heblaw eu bod nhw'n aelod o'r teulu ac **nad ydyn nhw** yn cael tâl am fod yn atwrnai ichi. Os byddan nhw'n torri'r rheol hon, byddan nhw'n torri'r gyfraith. I gael gwybod rhagor ewch i www.gov.uk/dbs

## Beth mae atwrneiod yn cael ei wneud

Dim ond y penderfyniadau rydych chi wedi caniatáu iddyn nhw'u gwneud yn eich LPA y caiff eich atwrneiod eu gwneud. Er enghraifft, os yw eich LPA ar gyfer penderfyniadau ariannol, chaiff eich atwrneiod ddim gwneud penderfyniadau am eich gofal neu'ch trefniadau beunyddiol. Os yw eich LPA ar gyfer eich iechyd a'ch gofal, chân nhw ddim gwneud penderfyniadau am eich arian.

## Pa bryd na chaiff atwrneiod weithredu bellach

Chaiff atwrnai ddim gweithredu drosoch chi

- os bydd yn colli galluedd meddyliol
- os bydd yn penderfynu nad yw am fod yn atwrnai ichi mwyach (gelwir hyn yn 'ymwrthod a'r penodiad')
- os bydd yn mynd yn fethdalwr neu'n destun gorchymyn rhyddhad dyled ac yntau'n atwrnai ar gyfer LPA ariannol
- os oedd yn wraig, yn ŵr neu'n bartner sifil ichi ond bod eich perthynas wedi dod i ben yn gyfreithiol - heblaw eich bod yn rhoi cyfarwyddiadau yn adran 7 o ffurflen yr LPA sy'n dweud y cân nhw barhau i fod yn atwrnai ichi os digwydd i'ch perthynas ddod i ben yn gyfreithiol

Weithiau, os bydd atwrnai'n marw neu'n gorfod rhoi'r gorau i weithredu am un o'r rhesymau uchod, fe all hynny achosi problemau difrifol:

- os ydych wedi penodi un atwrnai'n unig, ni fyddai eich LPA yn gweithio o gwbl wedyn
- os ydych wedi dweud bod yn rhaid i'ch atwrneiod weithredu 'ar y cyd' ar gyfer rhai penderfyniadau neu ar gyfer pob penderfyniad (gweler rhan A3 o'r canllawiau hyn) yna, fyddan nhw ddim yn gallu gwneud y penderfyniadau hynny

Os oes un o'r ddau beth hyn yn berthnasol i chi, ystyriwch benodi atwrneiod wrth gefn i warchod eich LPA. Darllenwch ragor am atwrneiod wrth gefn yn rhan A4 o'r canllawiau hyn.

Os byddwch yn dileu eich LPA, chaiff eich atwrneiod ddim gweithredu ar eich rhan mwyach.

# Rhan A3 – Sut y dylai eich atwrneiod wneud penderfyniadau?



## Llenwch adran 3

Rhowch ‘X’ mewn **un blwch yn unig** ar y dudalen hon.

Os ydych wedi dewis un atwrnai’n unig, ticiwch y blwch: ‘Dim ond un atwrnai yr wyf wedi’i benodi’ ac ewch i adran 4

Os ydych wedi dewis dau atwrnai neu ragor, rhaid ichi ddweud sut y dylen nhw wneud penderfyniadau ar eich rhan. Dewiswch un o dri opsiwn drwy roi ‘X’ mewn un blwch yn unig:

- ar y cyd ac yn unigol
- ar y cyd
- ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau, ar y cyd ac yn unigol ar gyfer penderfyniadau eraill

Mae pob un o’r dewisiadau hyn yn cael eu hesbonio yn adran 3 o ffurflen yr LPA ac isod. Os nad ydych yn siŵr pa opsiwn sydd orau ar gyfer eich amgylchiadau, efallai yr hoffech gael cyngor cyfreithiol.

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn dewis ‘ar y cyd ac yn unigol’ oherwydd dyma’r ffordd fwyaf hyblyg ac ymarferol i atwrneiod benderfynu pethau.

Os byddwch yn dewis opsiwn gwahanol i ‘ar y cyd ac yn unigol’ ac na fydd eich atwrneiod yn gallu cytuno’n unfrydol ar benderfyniad ar y cyd, fydd hi ddim yn bosibl gwneud y penderfyniad hwnnw. Efallai na fydd modd defnyddio’ch LPA.

Os byddwch yn dewis ‘ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau, ar y cyd ac yn unigol ar gyfer penderfyniadau eraill’, rhaid ichi ddefnyddio dalen barhad 2. Ar ddalen barhad 2:

- marciwch y blwch ‘Penderfyniadau y dylai’r atwrneiod eu gwneud ar y cyd’
- ysgrifennwch yn y bwlch pa benderfyniadau y mae’n rhaid i’ch atwrneiod eu gwneud ar y cyd (gweler Rhagor o wybodaeth isod am enghreifftiau o’r pethau y gallech eu hysgrifennu)

Os byddwch yn defnyddio dalen barhad 2, rhaid ichi ei llofnodi a’i dyddio (ac unrhyw gopïau ychwanegol y byddwch yn eu defnyddio) cyn ichi lofnodi adran 9 o’ch LPA.

## Rhagor o wybodaeth

Rhaid ichi ddweud sut y dylai eich atwrneiod weithredu - a ydynt yn cael penderfynu ar eu pen eu hunain, ynteu a oes yn rhaid iddyn nhw gytuno ar rai penderfyniadau neu ar bob penderfynid yn unfrydol. Bydd angen ichi ddewis un o dri opsiwn. Dyma'r manylion isod.

### Ar y cyd ac yn unigol (bydd atwrneiod naill ai'n gweithredu gyda'i gilydd neu ar eu pen eu hunain)

Gall eich atwrneiod wneud penderfyniadau ar eich rhan ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd.

Os bydd unrhyw atwrnai'n cymryd cam ar ei ben ei hun, bydd hynny yr un mor ddilys â phetai'n atwrnai unigol. Gwaith eich atwrneiod yw dewis sut maen nhw'n gwneud penderfyniadau ond rhaid iddyn nhw bob tro weithredu er eich lles gorau.

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn dewis yr opsiwn hwn oherwydd:

- bod atwrneiod yn gallu gwneud penderfyniadau syml neu frys yn gyflym ac yn rhwydd, heb ofyn i'r atwrneiod eraill
- os bydd un atwrnai'n methu â gweithredu rhagor, bydd yr LPA yn dal i weithio

Os byddwch yn dewis yr opsiwn hwn, rhaid ichi beidio â dweud yn unman arall yn yr LPA bod yn rhaid i benderfyniadau penodol gael eu gwneud:

- gan un atwrnai'n benodol
- gan rai o'ch atwrneiod neu gan bob un ohonynt
- gan nifer benodol o atwrneiod fan leiaf

Mae cyfarwyddiadau fel hyn yn groes i'ch dewis yma, felly mae'n bosibl y caiff eich LPA ei gwrthod.

Mae adran ddiweddarach yn yr LPA sy'n gadael ichi roi cyfarwyddiadau mwy penodol i'ch atwrneiod. Fydd y rhan fwyaf o bobl ddim yn gwneud hyn, ac mae'n gallu bod yn fwy cymhleth nag y mae'n ymddangos. Darllenwch ran A7 o'r canllawiau hyn cyn penderfynu a ydych am ychwanegu unrhyw beth yno.

### Ar y cyd (bydd yr atwrneiod yn cytuno ar bob penderfyniad yn unfrydol)

Rhaid i'ch atwrneiod wneud pob penderfyniad gyda'i gilydd bob tro. Rhaid iddyn nhw gytuno'n unfrydol a rhaid iddyn nhw lofnodi unrhyw ddogfennau perthnasol.

Dewiswch yr opsiwn hwn os ydych am i'ch atwrneiod gytuno ar bob penderfyniad, penderfyniad mawr neu fach.

> Os na fydd eich atwrneiod i gyd yn gallu cytuno ar benderfyniad, fydd dim modd gwneud y penderfyniad hwnnw.

Gyda'r dewis hwn:

- os na all eich atwrneiod gydweithio, wnaiff eich LPA ddim gweithio
- os bydd un atwrnai'n methu gweithredu rhagor neu'n marw, wnaiff eich LPA ddim gweithio - oni bai eich bod wedi penodi atwrneiod wrth gefn

Os bydd eich atwrneiod yn byw ymhell ar wahân, mae'n bosibl y bydd yn anodd iddyn nhw gydweithio - er enghraifft, mynd i'r banc gyda'i gilydd.

Os bydd un o'ch cyd-atwrneiod yn methu â gweithredu rhagor, bydd hynny'n golygu na fydd yr un o'ch atwrneiod gwreiddiol yn cael gweithredu drosoch ychwaith. Y rheswm dros hyn yw bod y gyfraith yn ystyried atwrneiod sy'n gweithredu ar y cyd yn un uned. Os ydych wedi penodi atwrneiod wrth gefn, bydd y rheini i gyd yn camu i mewn yn lle'r rhai gwreiddiol.

### Ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau, ar y cyd ac yn unigol ar gyfer penderfyniadau eraill

Rhaid i'ch atwrneiod wneud rhai penderfyniadau gyda'i gilydd a chytuno'n unfrydol arnynt - ond fe gân nhw wneud penderfyniadau eraill ar eu pen eu hunain.

Os dewiswch yr opsiwn hwn, rhaid ichi ddweud yn glir pa benderfyniadau y dylai eich atwrneiod eu gwneud gyda'i gilydd a chytuno'n unfrydol arnynt: hynny yw, pa bryd y dylen nhw weithredu ar y cyd.

Os na fydd eich atwrneiod i gyd yn gallu cytuno ar benderfyniad, fydd dim modd gwneud y penderfyniad hwnnw.

Bydd rhai pobl yn dewis yr opsiwn hwn oherwydd nad oes ots ganddyn nhw bod eu hatwrneiod yn gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd ar eu pen eu hunain ond eu bod yn dymuno iddyn nhw wneud penderfyniadau pwysig gyda'i gilydd, er enghraifft penderfyniad am werthu tŷ.

Os bydd eich atwrneiod yn byw ymhell ar wahân, mae'n bosibl y bydd yn anodd iddyn nhw gydweithio - er enghraifft, mynd i'r banc gyda'i gilydd.

Gyda'r dewis hwn:

- rhaid ichi ysgrifennu ar ddalen barhad 2 pa benderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud ar y cyd, a pha rai y mae'n rhaid eu gwneud ar y cyd ac yn unigol - os na wnewch chi hyn, wnaiff eich LPA ddim gweithio
- os na all eich atwrneiod gytuno ar benderfyniad ar y cyd, does dim modd gwneud y penderfyniad hwnnw
- os bydd un atwrnai'n methu â gweithredu rhagor neu'n marw, fydd yr atwrneiod sy'n weddill ddim yn gallu gwneud dim o'r penderfyniadau ar y cyd, heblaw eich bod wedi penodi atwrneiod wrth gefn

Gyda'r opsiwn hwn, os bydd un atwrnai'n rhoi'r gorau i weithredu drosoch ond bod gennych atwrneiod wrth gefn:

- bydd yr atwrneiod wrth gefn yn camu i'r adwy, gan wneud pob penderfyniad ar y cyd yn lle'ch atwrneiod gwreiddiol
- bydd yr atwrneiod wrth gefn a'r atwrneiod gwreiddiol sy'n weddill yn gallu gwneud unrhyw benderfyniadau y mae ganddyn nhw'r hawl i'w gwneud yn unigol

## Dyma enghreifftiau o weithio ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau, ac ar y cyd ac yn unigol ar gyfer penderfyniadau eraill

### Enghreifftiau ar gyfer LPA eiddo a materion ariannol

Os byddwch yn dewis 'ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau, ar y cyd ac yn unigol ar gyfer penderfyniadau eraill', dylech wneud datganiad tebyg i un o'r rhain ar ddalen barhad 2:

"Rhaid i fy atwrneiod weithredu ar y cyd wrth wneud penderfyniadau am werthu neu osod fy nhŷ ac fe gân nhw weithredu ar y cyd ac yn unigol ar gyfer popeth arall."

"Rhaid i fy atwrneiod weithredu ar y cyd wrth wneud penderfyniadau am fuddsoddi mewn stociau a chyfranddaliadau ac fe gân nhw weithredu ar y cyd ac yn unigol ar gyfer popeth arall."

Yn yr enghraifft gyntaf, ystyr 'popeth arall' yw pob penderfyniad ariannol ar wahân i werthu neu osod eich tŷ. Yn yr ail enghraifft, ystyr 'popeth arall' yw pob mater ariannol ar wahân i fuddsoddi mewn stociau a chyfranddaliadau.

Peidiwch â defnyddio'r enghreifftiau hyn oni bai mai dyma'n union yw eich dymuniad - mae angen ichi ddweud beth sy'n iawn i chi.

### Enghreifftiau ar gyfer LPA iechyd a gofal:

Os byddwch yn dewis 'ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau, ar y cyd ac yn unigol ar gyfer penderfyniadau eraill', dylech wneud datganiad tebyg i un o'r rhain ar ddalen barhad 2:

"Rhaid i fy atwrneiod weithredu ar y cyd ar gyfer penderfyniadau am ymhle yr wyf yn byw ac fe gân nhw weithredu ar y cyd ac yn unigol ar gyfer popeth arall."

> “Rhaid i fy atwrneiod weithredu ar y cyd ar gyfer penderfyniadau yr wyf wedi’u hawdurdodi i’w gwneud am driniaeth cynnal bywyd ac fe gân nhw weithredu ar y cyd ac yn unigol ar gyfer popeth arall.”

Yn yr enghraifft gyntaf, ystyr ‘popeth arall’ yw bod pob penderfyniad am eich gofal o ddydd i ddydd a thriniaeth feddygol. Yn yr ail enghraifft, mae ‘popeth arall’ hefyd yn cynnwys gofal o ddydd i ddydd a thriniaeth feddygol a phenderfyniadau mwy am ymhle y dylech chi fyw. Dim ond penderfyniadau am driniaethau sydd eu hangen i’ch cadw’n fyw sydd heb eu cynnwys.

Dim ond os byddwch yn rhoi’r awdurdod i’ch atwrneiod roi neu wrthod cydsynio i driniaeth cynnal bywyd drwy ddewis opsiwn A yn adran 5 o’ch ffurflen LPA y cewch chi ddefnyddio rhywbeth tebyg i’r ail enghraifft. Gweler rhan A5 ar dudalen 24 o’r canllawiau hyn i gael gwybod rhagor am driniaeth cynnal bywyd.

Peidiwch â defnyddio’r enghreifftiau hyn heblaw mai dyma’n union yw eich dymuniad - mae angen ichi ddweud beth sy’n iawn i chi.

## Gwarchod eich buddiannau

> Ym mha ffordd bynnag y byddwch yn penodi’ch atwrneiod i weithredu, mae’r gyfraith yn dweud ei bod yn rhaid iddyn nhw bob tro weithredu er eich lles gorau a gwneud pob ymdrech i gael gwybod a allwch wneud penderfyniad cyn iddyn nhw wneud y penderfyniad hwnnw.


Rhaid i atwrneiod hefyd ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau a chadw mewn cof unrhyw ddymuniadau y byddwch yn eu rhoi yn adran 7 o ffurflen eich LPA.

Mae Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn esbonio dyletswyddau atwrneiod. Gallwch weld hwn ar lein yn www.gov.uk/opg/mca-code

## Cwestiynau ichi ofyn ichi’ch hun

- A ydych am ddewis ‘ar y cyd ac yn unigol’, yr opsiwn mwyaf hyblyg ac ymarferol?
- Beth allai rwystro’ch atwrneiod rhag gweithio gyda’i gilydd? A ydyn nhw’n gwneud yn dda â’i gilydd? Beth allai ddigwydd petaen nhw’n ffraeo?
- A ydych chi’n hapus i’ch atwrneiod ddewis gwneud penderfyniadau ar y cyd ac yn unigol? Dewiswch ‘ar y cyd ac yn unigol’, sef yr opsiwn symlaf.
- Hyd yn oed os bydd eich atwrneiod yn gallu gwneud y rhan fwyaf o benderfyniadau ar eu pen eu hunain, a oes rhai penderfyniadau mawr yr hoffech iddyn nhw gytuno yn eu cylch? Dewiswch ‘Ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau, ar y cyd ac yn unigol ar gyfer penderfyniadau eraill’.
- A fyddech yn hoffi i’ch atwrneiod neu’ch atwrneiod wrth gefn wneud eu penderfyniadau i gyd a chytuno ar bob penderfyniad yn unfrydol, pa mor fawr neu fach bynnag yw’r penderfyniadau hynny? Dewiswch ‘ar y cyd’.
- A ydy eich atwrneiod yn deall sut y byddech yn hoffi iddyn nhw wneud penderfyniadau? Gwnewch yn siŵr eich bod yn trafod eich dewis â nhw.
- A ydych yn gwybod beth fydd yn digwydd os bydd un atwrnai’n methu â gweithredu rhagor? Darllenwch yr adran hon eto os nad ydych yn siŵr.
- A ydych am benodi atwrneiod wrth gefn os bydd eich atwrneiod yn gorfod gwneud rhai penderfyniadau neu bob penderfyniad gyda’i gilydd? Os na fyddwch yn dewis atwrneiod wrth gefn, ac os bydd atwrnai’n rhoi’r gorau i weithredu ar eich rhan, fe allai hynny olygu na fydd eich LPA yn gweithio.

# Rhan A4 – atwrneiod wrth gefn



## Llenwch adran 4 (dewisol)

Os ydych am gael un neu fwy nag un atwrnai wrth gefn, ysgrifennwch eu manylion yn adran 4 o ffurflen yr LPA.

Os ydych am gael mwy na dau atwrnai wrth gefn, marciwch y blwch 'Mwy o atwrneiod wrth gefn' ar y dudalen hon. Defnyddiwch gopi o ddalen barhad 1, sydd â'r teitl 'Pobl ychwanegol' arni. Ar gyfer pob atwrnai wrth gefn ychwanegol, marciwch y blwch 'Atwrnai wrth gefn' ar y ddalen ac ychwanegu eu manylion.

**Rhaid** ichi lofnodi a dyddio dalen barhad 1 **cyn** ichi lofnodi'r LPA yn adran 9.

Os bydd angen mwy nag un ddalen barhad, gallwch wneud copïau.

### Newid pa bryd a sut y caiff eich atwrneiod wrth gefn weithredu.

Rhowch 'X' yn y blwch hwn os ydych wedi penodi mwy nag un atwrnai wrth gefn a'ch bod am newid sut neu pa bryd maen nhw'n gweithredu.

Gall marcio'r blwch hwn greu'r cymhlethdodau i'ch LPA. Mae rhagor o ganllawiau isod - darllenwch nhw. Efallai yr hoffech gael cyngor cyfreithiol.

# Rhagor o wybodaeth

Byddwch yn dewis atwrneiod wrth gefn er mwyn iddyn nhw gamu i mewn os na fydd un o'ch atwrneiod gwreiddiol yn gallu gwneud penderfyniadau ar eich rhan mwyach.

Bydd atwrnai wrth gefn yn camu i mewn os bydd un o'ch atwrneiod:

- yn marw
- yn colli galluedd meddyliol
- yn penderfynu nad yw am weithredu ar eich rhan bellach (gelwir hyn yn 'ymwrthod â'r penodiad')
- yn wraig, yn ŵr neu'n bartner sifil ichi ond bod eich perthynas wedi dod i ben yn gyfreithiol (heblaw eich bod wedi ychwanegu cyfarwyddyd iddyn nhw barhau)
- yn mynd i fethdalwr neu'n destun gorchymyn rhyddhad dyled - dim ond i LPA materion ariannol y mae hyn yn berthnasol

Dim ond os bydd yr atwrnai y maen nhw'n camu i mewn yn ei le'n methu byth eto â gwneud penderfyniadau am un o'r rhesymau uchod y caiff atwrnai wrth gefn weithredu.

Ni chaiff atwrnai wrth gefn:

- gamu i mewn dros dro yn lle atwrnai sy'n dal i allu gweithredu (er enghraifft, tra bo'r atwrnai cyntaf ar ei wyliau)
- ddisodli atwrnai wrth gefn

Ni chewch ychwanegu cyfarwyddiadau sy'n dweud wrth atwrneiod wrth gefn am ddechrau gweithredu dan amgylchiadau penodol.

Os oes rhaid i'ch atwrneiod wneud pob penderfyniad neu rai penderfyniadau ar y cyd a bod un ohonynt yn methu â gweithredu rhagor, bydd eich atwrneiod wrth gefn yn gwneud y penderfyniadau ar y cyd hynny yn lle hynny. Bydd yr atwrneiod gwreiddiol sy'n weddill a'ch atwrneiod wrth gefn yn cael gwneud unrhyw benderfyniadau nad oes yn rhaid eu gwneud ar y cyd.

Fel rheol, bydd atwrneiod wrth gefn yn camu i mewn cyn gynted ag y bydd un o'ch atwrneiod gwreiddiol yn rhoi'r gorau i weithredu drosoch.

## Gwarchod eich LPA

Mae cael atwrneiod wrth gefn yn golygu y dylai eich LPA ddal i weithio os bydd un o'ch atwrneiod gwreiddiol yn methu â gweithredu drosoch bellach.

Heb atwrneiod wrth gefn:

- os nad oes ond gennych chi un atwrnai a bod yr atwrnai hwnnw'n methu â gweithredu drosoch bellach, wnaiff eich LPA ddim yn gweithio rhagor.
- os oes gennych atwrneiod sy'n gorfod gwneud pob penderfyniad neu rai penderfyniadau gyda'i gilydd ('ar y cyd'), a bod un o'r atwrneiod yn methu â gweithredu rhagor, fydd y gweddill ddim yn gallu gwneud y penderfyniadau hynny y mae'n rhaid eu gwneud ar y cyd.

Os nad oes modd defnyddio'ch LPA ac nad oes gennych alluedd meddyliol, bydd rhywun rydych yn ei adnabod yn gorfod gwneud cais i'r Llys Gwarchod er mwyn cael y pŵer i weithredu ar eich rhan - gall hyn fod yn ddrud ac fel rheol, bydd yn broses hir.

## Pwy sy'n cael bod yn atwrnai wrth gefn

Rhaid i atwrnai wrth gefn gyflawni'r un gofynion ag atwrnai gwreiddiol. Mae hyn yn cynnwys bod ganddo alluedd meddyliol a'i fod yn 18 oed neu'n hŷn wrth lofnodi'ch LPA.

Ni chaiff un o'ch atwrneiod gwreiddiol fod yn atwrnai wrth gefn hefyd yn yr un LPA.

Ni chaiff rhywun sydd ar restr waharddedig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fod yn atwrnai - heblaw eu bod nhw'n aelod o'r teulu ac **nad ydyn nhw** yn cael tâl am fod yn atwrnai ichi. Os byddan nhw'n torri'r rheol hon, byddan nhw'n torri'r gyfraith.

## Pa bryd y bydd atwrneiod yn camu i mewn

Os byddwch yn cynnwys mwy nag un atwrnai wrth gefn yn eich LPA, byddan nhw i gyd yn dechrau ar yr un pryd, heblaw eich bod:

- wedi penodi'ch atwrneiod i weithredu ar y cyd ac yn unigol
- **a'ch bod** wedi dweud ym mha drefn y caiff eich atwrneiod gwreiddiol eu disodli

## Disodli atwrnai sy'n gweithredu 'ar y cyd ac yn unigol'

Os byddwch yn penodi'ch atwrneiod i weithredu ar y cyd ac yn unigol, bydd atwrneiod wrth gefn fel rheol yn camu i mewn os na fydd un o'r atwrneiod gwreiddiol yn gallu gweithredu drosoch mwyach. Wedyn bydd yr atwrneiod wrth gefn ac unrhyw atwrneiod gwreiddiol sy'n weddill yn gallu gwneud penderfyniadau 'ar y cyd ac yn unigol'.

## Disodli atwrneiod sy'n gweithredu 'ar y cyd' neu 'ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau, ar y cyd ac yn unigol ar gyfer penderfyniadau eraill'

Os byddwch yn penodi'ch atwrneiod naill ai 'ar y cyd' neu 'ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau, ar y cyd ac yn unigol ar gyfer penderfyniadau eraill', mae'n bwysig cael atwrneiod wrth gefn.

Os bydd un o'ch atwrneiod gwreiddiol yn methu â gweithredu drosoch rhagor, rhaid i'ch holl atwrneiod eraill roi'r gorau i wneud unrhyw benderfyniadau ar y cyd. Os bydd hyn yn digwydd, bydd unrhyw atwrneiod wrth gefn yn camu i mewn i wneud y penderfyniadau ar y cyd. Os nad ydych wedi dewis unrhyw atwrneiod wrth gefn, fydd eich LPA yn ddim gweithio rhagor ar gyfer penderfyniadau ar y cyd. Mae hyn oherwydd bod y gyfraith yn ystyried grŵp sydd wedi cael ei benodi 'ar y cyd' yn un uned unigol.

Darllenwch yr adran am 'Gymhlethdodau', isod, i weld enghreifftiau o sut y gallai hyn weithio'n ymarferol.

## Newid pa bryd a sut y caiff eich atwrneiod wrth gefn weithredu

Rhowch 'X' yn y blwch hwn os ydych wedi penodi mwy nag un atwrnai wrth gefn a'ch bod am newid sut neu pa bryd maen nhw'n gweithredu.

Mae dwy brif sefyllfa lle bydd hyn yn ddefnyddiol. Mae gennych fwy nag un atwrnai wrth gefn ac:

- rydych wedi penodi eich atwrneiod gwreiddiol ar y cyd ac yn unigol. Rydych chi am i'ch atwrneiod wrth gefn gamu i mewn mewn trefn benodol. Darllenwch 'Gosod trefn ar gyfer atwrneiod wrth gefn' isod
- dim ond un atwrnai gwreiddiol sydd gennych. Dydych chi ddim am i'ch atwrneiod wrth gefn weithredu ar y cyd. Darllenwch drwy'r canllawiau ar dudalen 20, yn enwedig y rhan am gymhlethdodau a elwir yn '1. Un atwrnai yn unig a dau neu fwy o atwrneiod wrth gefn'

Mae 'na sefyllfaoedd eraill hefyd lle y byddech o bosibl am farcio'r blwch hwn. Mae enghreifftiau o'r rhain o dan 'Cymhlethdodau: atwrneiod wrth gefn' ar y dudalen hon.

## Gosod trefn ar gyfer atwrneiod wrth gefn

Os byddwch yn marcio'r blwch a'ch bod wedi penodi'ch atwrneiod gwreiddiol i weithredu 'ar y cyd ac yn unigol' yn adran 3 o ffurflen yr LPA, gallwch ddweud ym mha drefn y bydd eich atwrneiod wrth gefn yn camu i mewn.

Defnyddiwch ddalen barhad 2. Marciwch y blwch: 'Sut y bydd atwrneiod wrth gefn yn camu i mewn.' Defnyddiwch y lle hwn i ysgrifennu sut yr hoffech i'ch atwrneiod wrth gefn gamu i mewn. Efallai y byddech yn ysgrifennu rhywbeth tebyg i hyn:

> "Os bydd un o'm hatwrneiod (fy mam a'm tad) yn methu â gweithredu rhagor, byddwn yn hoffi i fy chwaer weithredu yn lle'r atwrnai hwnnw. Os bydd fy rhiant arall, yn ddiweddarach, yn methu â gweithredu, byddwn yn hoffi i fy mrawd fod yn atwrnai yn ei le".

> "Os bydd fy atwrnai John Smith yn methu â gweithredu o dan yr LPA hon, rwyf am i fy atwrnai wrth gefn, Anne Hall, gamu i mewn a gweithredu yn ei le."

**Peidiwch** â gosod trefn ar gyfer disodli atwrneiod os bydd eich atwrneiod gwreiddiol yn â gweithredu 'ar y cyd' ar gyfer rhai penderfyniadau neu 'ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau, ar y cyd ac yn unigol ar gyfer rhai eraill.' Bydd hynny'n golygu na fydd eich LPA yn gweithio bellach. Os ydych am wneud hyn o hyd, dylech geisio cyngor cyfreithiol.

## Cymhlethdodau: atwrneiod wrth gefn

Mae penodi atwrneiod wrth gefn yn ffordd gall o warchod LPA, yn enwedig os dim ond un atwrnai gwreiddiol sydd, neu os bydd yn rhaid i'ch atwrneiod wneud rhai penderfyniadau neu bob penderfyniad ar y cyd.

Fel rheol, bydd atwrneiod wrth gefn yn gweithio yn ôl y disgwyl. Er enghraifft, gallech enwi un atwrnai gwreiddiol ac un atwrnai wrth gefn. Wedyn, os bydd yr atwrnai gwreiddiol yn rhoi'r gorau i weithredu, bydd yr atwrnai wrth gefn yn camu i mewn yn ei le.

Serch hynny, os bydd yn rhaid i'ch atwrneiod wneud rhai penderfyniadau ar y cyd neu os bydd gennych fwy nag un atwrnai wrth gefn, gall pethau annisgwyl ddigwydd.

Edrychwch ar yr enghreifftiau ar y ddwy dudalen nesaf: maen nhw'n trafod nifer o sefyllfaoedd eithaf cyffredin.

### 1. Un atwrnai yn unig a dau neu fwy o atwrneiod wrth gefn

#### Beth fydd yn digwydd

Heblaw eich bod yn dweud yn wahanol, bydd yn rhaid i'r atwrneiod wrth gefn weithredu ar y cyd.

#### Enghraifft:

Rydych wedi penodi'ch cymar neu'ch partner yn unig atwrnai ichi. Rydych yn penodi'ch mab a'ch merch yn atwrneiod wrth gefn. Dydych chi ddim yn dweud dim am sut y dylen nhw weithredu.

Cyn gynted ag y bydd eich cymar neu'ch partner yn methu â gweithredu rhagor, bydd eich plant yn camu i mewn. Maen nhw nawr yn atwrneiod ar y cyd, a rhaid iddyn nhw gytuno'n unfrydol ar bob penderfyniad, dim ots pa mor ddibwys.

#### Dewisiadau amgen

Efallai mai dyma'r hyn rydych yn ei ddymuno - serch hynny, bydd yn well gan lawer o bobl i'w hatwrneiod weithredu 'ar y cyd neu'n unigol', gan roi mwy o ryddid a hyblygrwydd iddyn nhw.

Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd:

- ar waelod adran 4 o'r LPA, marciwch y blwch 'Rwyf am newid pa bryd neu sut y caiff fy atwrneiod weithredu'
- defnyddiwch gopi o ddalen barhad 2 a marciwch y blwch 'Sut y bydd atwrneiod wrth gefn yn camu i mewn ac yn gweithredu'
- ysgrifennwch hyn ar y ddalen: "Rwyf am i fy atwrneiod wrth gefn weithredu ar y cyd ac yn unigol"
- llofnodwch a dyddiwch y ddalen cyn ichi lofnodi adran 9 o'r LPA.

### 2. Atwrneiod ar y cyd ac un neu fwy atwrnai wrth gefn

#### Beth fydd yn digwydd

Fydd yr atwrneiod gwreiddiol ddim yn gallu gweithredu o gwbl cyn gynted ag y bydd un ohonyn nhw'n rhoi'r gorau i weithredu. Bydd yr atwrneiod wrth gefn yn gwneud pob penderfyniad.

#### Enghraifft

Byddwch yn penodi'ch dau frawd a'ch chwaer yn atwrneiod i weithredu ar y cyd, ac yn penodi eich merch yn atwrnai wrth gefn.

Mae rhywbeth yn digwydd i'ch chwaer sy'n golygu nad yw'n gallu gweithredu mwyach. Nawr, bydd eich merch yn camu i mewn. Hi yw'r unig atwrnai, ac ni fydd gan y ddau frawd sy'n weddill ddim llais bellach yn y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud o dan yr LPA hon - chân nhw ddim gweithredu o gwbl ar eich rhan.

### Dewisiadau amgen

Os ydych wedi penodi'ch atwrneiod gwreiddiol 'ar y cyd', dydy hi ddim yn hawdd trefnu pethau er mwyn i'r lleill ddal i weithredu ar ôl i un ohonyn nhw orfod rhoi'r gorau iddi– dyma'r hyn y mae 'ar y cyd' yn ei olygu.

Yn lle hyn, gallech ystyried penodi'r atwrneiod gwreiddiol 'ar y cyd ac yn unigol'. Os oes rhai penderfyniadau mawr rydych am iddyn nhw gytuno yn eu cylch, gallech eu penodi 'ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau, ar y cyd ac yn unigol ar gyfer penderfyniadau eraill' - serch hynny, fel mae'r enghraifft ar y dudalen nesaf yn ei ddangos, gallai'r un broblem godi eto.

Mae un ffordd o'i datrys hi.

Gallwch wneud ail LPA rhag ofn i'r un gyntaf fethu â gweithio. Yn yr ail LPA hon, gallwch benodi'r atwrneiod ar y cyd sydd yn eich LPA gyntaf yn atwrneiod.

Os byddwch yn penodi'ch atwrneiod ar y cyd ac yn unigol yn eich ail LPA, byddwch yn osgoi'r broblem gawsoch chi gyda'ch LPA gyntaf.

Os byddwch yn gwneud ail LPA, rhaid ichi ysgrifennu cyfarwyddyd yn adran 7 o'ch ail LPA yn dweud y bydd yn dod i rym os bydd eich LPA gyntaf yn methu â gweithio. Efallai y byddech yn ysgrifennu rhywbeth tebyg i hyn:

'Os bydd fy LPA wreiddiol ar gyfer penderfyniadau ariannol yn methu â gweithio, bydd yr LPA hon yn dod i rym.'

'Os bydd fy LPA iechyd a lles yn methu, bydd yr LPA hon yn ei disodli.'

Os byddwch am wneud hyn, efallai y byddech yn dymuno gofyn am gymorth cyfreithiol neu ffonio ein llinell gymorth.

## 3. Penodi atwrneiod ar y cyd ar gyfer rhai penodiadau ac ar y cyd ac yn unigol ar gyfer penderfyniadau eraill, yn ogystal ag un neu fwy atwrnai wrth gefn

### Beth fydd yn digwydd

Fydd gan yr atwrneiod gwreiddiol ddim llais yn y penderfyniadau ar y cyd cyn gynted ag y bydd un ohonyn nhw'n methu â gweithredu. Bydd yr atwrneiod wrth gefn wedyn yn gwneud pob penderfyniad ar y cyd.

### Enghraifft

Rydych wedi penodi'ch merch a'i gŵr yn atwrneiod. Rhaid iddyn nhw weithredu ar y cyd ar gyfer unrhyw benderfyniad am werthu eich tŷ, ond fe gân nhw weithredu ar y cyd ac yn unigol ar gyfer pob penderfyniad arall. Byddwch yn penodi eich dau ŵyr (sydd dros 18 oed) yn atwrneiod wrth gefn.

Mae eich mab yng nghyfraith yn methu â gweithredu fel atwrnai mwyach. Nawr, eich merch a'ch wyrion yw eich atwrneiod. Serch hynny, does gan eich merch ddim llais rhagor mewn materion sy'n ymwneud â gwerthu'ch tŷ. Caiff eich wyrion wneud y penderfyniad hwnnw heb ymgynghori â hi - nhw yw'r unig atwrneiod ar gyfer penderfyniadau ar y cyd.

### Dewisiadau amgen

Mae'r un broblem yma ag yn '2. Atwrneiod ar y cyd ac un neu fwy nag un atwrnai wrth gefn ar dudalen 20.

Os ydych yn siŵr nad ydych am benodi'ch atwrneiod gwreiddiol ar y cyd ac yn unigol, yna gallwch wneud dwy LPA.

I wneud hyn, dilynwch y cyfarwyddiadau yn '2. Atwrneiod ar y cyd ac un neu fwy nag un atwrnai wrth gefn ar dudalen 20.

# Rhan A5 – pa bryd y caiff eich atwrneiod wneud penderfyniadau? (LPA ar gyfer penderfyniadau ariannol yn unig)

## Llenwch adran 5



**Rhaid** ichi ddewis pa bryd rydych am i'ch atwrneiod allu gwneud penderfyniadau. Rhowch 'X' mewn **un blwch** yn unig.

Bydd gennych ddau opsiwn:

- Cyn gynted ag y bydd fy LPA wedi'i chofrestru (a hefyd pan na fydd gennyf alluedd meddyliol)
- Dim ond pan na fydd gennyf alluedd meddyliol

## Rhagor o wybodaeth

Fel rheol, mae'n bosibl defnyddio LPA ariannol cyn gynted ag y caiff ei chofrestru. Os oes gennych alluedd meddyliol, gallwch ddweud wrth eich atwrneiod am ddechrau defnyddio'r LPA ar unwaith. Os byddwch wedyn yn colli galluedd meddyliol, gallan nhw barhau i ddefnyddio'r LPA.

Neu, gallwch ddewis mai **dim ond** pan na fydd gennych alluedd meddyliol y bydd eich LPA yn dod i rym - ac y bydd eich atwrneiod yn gallu gweithredu drosoch chi.

### Cyn gynted ag y bydd fy LPA wedi'i chofrestru (a hefyd pan na fydd gennyf alluedd meddyliol)

Rhowch 'X' yn y blwch hwn os ydych am i'ch atwrneiod eich helpu gyda'ch materion ariannol tra bydd gennych alluedd meddyliol.

Er enghraifft, os na allwch adael y tŷ neu os yw'n anodd ichi siarad â'ch cyflenwydd trydan, efallai y gallech ofyn i'ch atwrneiod ddelio â'r banc neu dalu biliau. Gallech ofyn i'ch atwrneiod weithredu drosoch os ydych chi i ffwrdd - ar eich gwyliau, er enghraifft.
Gallwch roi cyfarwyddiadau yn adran 7 o'r LPA (gweler rhan A7 o'r canllawiau hyn) am benderfyniadau na chaiff eich atwrneiod eu gwneud - er enghraifft, penderfyniadau am werthu eich tŷ. Gallech ysgrifennu cyfarwyddiadau tebyg i hyn:

> "Tra bydd gennyf alluedd meddyliol, chaiff fy atwrneiod ddim gwneud dim penderfyniadau am werthu fy nhŷ."

Cyn belled ag y bydd gennych alluedd meddyliol, chi fydd yn rheoli'ch materion ariannol.

### Dim ond pan na fydd gennyf alluedd meddyliol

Rhowch 'X' yn y blwch hwn os nad ydych am i'ch atwrneiod wneud penderfyniadau neu weithredu drosoch tra bydd gennych alluedd meddyliol. Mae hyn yn golygu y byddwch yn gofalu am eich

materion ariannol tra bydd gennych alluedd meddyliol. Yna, os byddwch chi byth yn colli'r galluedd hwnnw, bydd eich LPA yn barod i'ch atwrneiod ei defnyddio.

Weithiau, bydd banciau a sefydliadau ariannol eraill yn dymuno cael cadarnhad ysgrifenedig nad oes gan roddwr alluedd meddyliol cyn y byddan nhw'n barod i gydnabod awdurdod atwrnai i weithredu o dan LPA.


Gofynnwch i feddyg teulu, cydlynydd gofal, gweithiwr cymdeithasol neu staff cartref gofal y rhoddwr am asesiad galluedd meddyliol.

Pan fyddwch yn cyrraedd adran 7 o ffurflen yr LPA, gallwch ychwanegu cyfarwyddiadau. Bydd rhai pobl yn esbonio sut y dylid asesu eu galluedd meddyliol, er enghraifft:

> "Dim ond os byddan nhw wedi cael barn feddygol ysgrifenedig sy'n dweud nad wyf yn feddyliol alluog bellach i reoli a gweinyddu fy eiddo a'm materion ariannol y caiff fy atwrneiod weithredu o dan yr atwrneiaeth hon.

Serch hynny, os ydych yn ymddiried yn eich atwrneiod i asesu'ch galluedd meddyliol, fydd dim angen ichi ychwanegu cyfarwyddiadau fel hyn.

# Rhan A5 – triniaeth cynnal bywyd (LPA iechyd a gofal yn unig)



## Llenwch adran 5

Bydd gennych ddau opsiwn:

- opsiwn A - Rwy’n rhoi’r awdurdod i fy atwrneiod i roi neu wrthod caniatâd ar fy rhan ar gyfer triniaeth cynnal bywyd
- opsiwn B - Nid wyf yn rhoi’r awdurdod i fy atwrneiod i roi neu wrthod caniatâd ar fy rhan ar gyfer triniaeth cynnal bywyd.

Llofnodwch **un** dewis yn unig.

**Rhaid** ichi lofnodi a dyddio’r dudalen hon. Rhaid ichi gael tyst i’ch llofnod. Rhaid i’r tyst fod yn 18 oed neu’n hŷn a chaiff neb sy’n atwrnai nac yn atwrnai wrth gefn ichi dan yr LPA hon ddim bod yn dyst.

Llofnodwch yr adran hon cyn ichi lofnodi’ch LPA yn adran 9. **Cewch** lofnodi’r ddwy adran ar yr un diwrnod.

Os na allwch lofnodi na gwneud marc a bod rhywun arall yn llofnodi’ch LPA ar eich rhan, rhaid i’r unigolyn hwnnw lofnodi’r dudalen hon a dyddio’r llofnod. **Rhaid** cael tyst i’r llofnod.

## Rhagor o wybodaeth

**Rhaid** ichi ddewis beth fyddech yn ei ddymuno petai angen help meddygol arnoch i’ch cadw’n fyw a chithau wedi colli’ch galluedd meddyliol.

Os byddwch yn llofnodi opsiwn A ac y bydd angen triniaeth cynnal bywyd arnoch rywbryd ond na allwch wneud penderfyniadau, gall eich atwrneiod siarad â’r meddygon ar eich rhan. Gallwch ysgrifennu cyfarwyddiadau neu ddymuniadau i’ch atwrneiod yn adran 7 o ffurflen yr LPA. Gweler ambell enghraifft ar y dudalen nesaf.

Os byddwch yn dewis opsiwn B, bydd y meddygon yn penderfynu ynglŷn â thriniaeth cynnal bywyd.

Os digwydd ichi wneud camgymeriad yn yr adran hon - er enghraifft - os anghofiwch chi gael tyst i’ch llofnod, neu anghofio rhoi dyddiad wrth y llofnod - yna dilynir opsiwn B. Bydd eich meddygon yn penderfynu ynglŷn â thriniaeth cynnal bywyd os na fydd gennych alluedd meddyliol.

### Triniaeth cynnal bywyd: diffiniad

Mae triniaeth cynnal bywyd yn golygu gofal, llawdriniaeth, meddyginiaeth neu help o fath arall gan feddygon y mae ei angen i gadw rhywun yn fyw.

Gall triniaeth cynnal bywyd gynnwys:

- llawdriniaeth ddifrifol, er enghraifft llawfeddygaeth ddargyfeiriol ar y galon
- cemotherapi, radiotherapi neu driniaeth o fath arall am ganser

- trawsblannu organ
- rhoi maeth neu hylifau drwy ddulliau artiffisial (rhoi bwyd neu ddŵr drwy ddull ar wahân i drwy'r geg)

Y sefyllfa sy'n penderfynu a yw rhai triniaethau'n rhai sy'n cynnal bywyd neu beidio. Er enghraifft, petai rhywun yn dioddef o niwmonia, gallai cwrs syml o gyffuriau gwrthfiotig fod yn ffordd o gynnal eich bywyd.

Mae'n bosibl y bydd angen gwneud penderfyniadau am driniaeth cynnal bywyd o dan amgylchiadau annisgwyl. Un enghraifft yw llawdriniaeth gyffredin lle bydd rhywbeth yn mynd o'i le.

## Opsiwn A: atwrneiod

Dewiswch opsiwn A os ydych am i'ch atwrneiod benderfynu ynglŷn â thriniaeth cynnal bywyd rhag ofn i sefyllfa godi rywbryd lle na fyddwch yn gallu penderfynu drosoch eich hun.

### Triniaeth cynnal bywyd: dymuniadau (dewisol)

Gallwch ddefnyddio adran 7 o ffurflen yr LPA i roi gwybod i'ch atwrneiod beth fyddai orau gennych. Wedyn, bydd unrhyw benderfyniadau a wnân nhw mor agos â phosibl at y penderfyniadau y byddech chi wedi'u gwneud.

Er enghraifft, gallech ysgrifennu rhywbeth tebyg i hyn:

> "Petawn i yn nyddiau olaf salwch terfynol, yr unig driniaethau y byddwn am eu cael fyddai rhai i'm gwneud i'n gyfforddus. Fyddwn i ddim am gael triniaethau i ymestyn fy oes na rhai a fyddai'n golygu na allwn farw gartref."

Dylai atwrneiod roi sylw i'ch dymuniadau, er nad oes yn rhaid iddyn nhw eu dilyn.

Does dim rhaid ichi nodi dim dymuniadau ar gyfer triniaeth cynnal bywyd - gall eich atwrneiod weithredu hebddynt.

### Triniaethau cynnal bywyd: cyfarwyddiadau (dewisol)

Gallwch ysgrifennu cyfarwyddiadau yn adran 7 o ffurflen yr LPA i nodi'n benodol y cyflyrau meddygol lle y bydd yn rhaid i'ch atwrneiod gydsynio ar eich rhan i driniaeth cynnal bywyd, neu lle y bydd yn rhaid iddyn nhw wrthod cydsynio. Er enghraifft, gallech ysgrifennu rhywbeth tebyg i hyn:

> "Ni chaiff fy atwrneiod gytuno i driniaeth cynnal bywyd os byddaf mewn cyflwr diymateb parhaol."

Efallai eich bod yn teimlo bod eich atwrneiod yn eich deall yn ddigon da ac nad oes angen ichi ysgrifennu cyfarwyddiadau. Mynnwch sgwrs â nhw am eich dymuniadau.

Os ysgrifennwch chi gyfarwyddiadau, rhaid i'ch atwrneiod eu dilyn. Rhaid ichi fod yn ofalus a pheidio ag ysgrifennu dim sy'n groes i'r hyn rydych chi wedi'i ddweud yn rhywle arall yn eich LPA neu sy'n golygu bod gofyn i'ch atwrneiod dorri'r gyfraith. Os gwnewch chi hynny, gallai eich LPA fod yn ddiwerth. Os ydych am ysgrifennu cyfarwyddiadau ond nad ydych yn siŵr, efallai yr hoffech ofyn am gymorth cyfreithiol.

Does dim rhaid ichi roi cyfarwyddiadau am driniaeth cynnal bywyd.

## Opsiwn B: meddygon

Dewiswch opsiwn B os ydych am i'ch meddygon benderfynu am driniaeth cynnal bywyd, rhag ofn na fyddwch chi'n gallu gwneud. Os bydd y sefyllfa'n codi, rhaid iddyn nhw:

- bwyso a mesur beth sydd er eich lles gorau
- ystyried, lle bo modd, farn eich atwrneiod a'r bobl eraill sy'n ymwneud a'ch lles
- ystyried yr hyn rydych wedi'i ddweud neu wedi'i ysgrifennu am driniaeth cynnal bywyd, gan gynnwys unrhyw ganllawiau rydych wedi'u rhoi yn eich LPA

## Ffyrdd eraill o wneud eich dymuniadau ynglŷn â thriniaeth yn glir

Mae ffyrdd eraill o egluro'r hyn yr hoffech ei weld yn digwydd os bydd angen triniaeth feddygol arnoch ac na allwch benderfynu pethau drosoch eich hun bellach.

Dogfen gyfreithiol gyfrwymol yw rhag-benderfyniad lle y byddwch yn ysgrifennu pa driniaethau penodol nad ydych am eu cael, rhag ofn ichi fethu â phenderfynu, neu fynegi'ch dymuniadau. Bydd rhai pobl yn galw hyn yn 'ewyllys byw' neu'n 'gyfarwyddyd ymlaen llaw'.

Os ydych wedi gwneud rhag-benderfyniad i'ch meddygon neu'ch atwrneiod ei ystyried, cyfeiriwch ato yn eich cyfarwyddiadau yn adran 7 o ffurflen yr LPA. Bydd angen ichi hefyd gynnwys copi o'r rhag-benderfyniad pan fyddwch yn anfon eich LPA i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus i'w chofrestru.

Mae gwybodaeth am rag-benderfyniadau ar wefan Dewisiadau'r GIG yn www.nhs.uk

Os byddwch yn rhoi'r pŵer i'ch atwrneiod benderfynu am driniaeth cynnal bywyd a'ch bod wedi gwneud rhag-benderfyniad, mae'n bosibl y bydd eich LPA yn drech na'r penderfyniad hwnnw.

Efallai yr hoffech gael cyngor cyfreithiol, yn enwedig os bydd y rhag - benderfyniad a'r LPA yn dweud pethau gwahanol iawn i'w gilydd.

Gallwch hefyd roi gwybod i bobl beth yw eich barn am driniaethau a gofal mewn:

- datganiadau ynglŷn â'ch dymuniadau
- cynlluniau gofal

Mae rhagor am driniaeth cynnal bywyd, rhag-benderfyniadau ac am sut y mae'n rhaid i weithwyr iechyd proffesiynol ymateb i'ch dymuniadau ysgrifenedig ym mhennod 9 o God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol, sydd i'w weld ar lein yn www.gov.uk/opg/mca-code

# Rhan A6 – pobl i’w hysbysu pan gaiff yr LPA ei chofrestru



## Llenwch adran 6 (dewisol)

Cewch ddewis hyd at bump o bobl i’w hysbysu am eich LPA pan fydd ar fin cael ei chofrestru.

Dylai’r rhain fod yn bobl rydych yn eu hadnabod yn dda ac a fyddai’n barod i godi unrhyw beth sy’n eu poeni am eich LPA. Fe gân nhw wrthwynebu’r LPA os ydyn nhw’n meddwl eich bod wedi bod dan bwysau i’w gwneud neu os ydyn nhw’n meddwl bod rhyw dwyll wedi digwydd.

Serch hynny, does dim rhaid ichi ddewis pobl i’w hysbysu.

Os ydych am benodi pobl i’w hysbysu, gallwch ysgrifennu enwau a chyfeiriadau hyd at bedwar yn adran 6. Os ydych am benodi pump o bobl i’w hysbysu, ticiwch y blwch sy’n dweud ‘Rwyf am benodi rhywun arall i’w hysbysu’. Llenwch enw a chyfeiriad yr unigolyn ar ddalen barhad 1 a marciwch y blwch ‘Person i’w hysbysu’ ar y ddalen honno.

**Rhaid** ichi lofnodi a dyddio dalen barhad 1 **cyn** ichi lofnodi’r LPA yn adran 9.

Os bydd angen mwy nag un ddalen barhad, gallwch wneud copïau.

**Rhaid** i’r sawl sy’n gwneud cais i gofrestru’r LPA - naill ai chi neu’ch atwrneiod - ddweud wrth unrhyw un sydd i’w hysbysu fod yr LPA yn cael ei hanfon i’w chofrestru Rhaid iddyn nhw ddefnyddio ffurflen LP3 i wneud hyn, **ychydig cyn** anfon ffurflen yr LPA i Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mae Rhan C o’r canllawiau hyn yn esbonio sut mae hysbysu’r bobl hyn.

## Rhagor o wybodaeth

Mae rhoi gwybod i bobl am eich LPA ychydig cyn ichi ei chofrestru yn eich gwarchod chi. Mae’n arbennig o bwysig os bydd cyfnod hir yn mynd heibio rhwng gwneud eich LPA a’i chofrestru.

### Dewis pobl i’w hysbysu

Cewch ddewis hyd at bump o bobl i’w hysbysu ond chaiff y rhain ddim bod yn bobl sy’n atwrneiod nac yn atwrneiod wrth gefn ichi. Bydd llawer o roddwyr yn dewis aelodau o’r teulu neu ffrindiau agos.


Holwch y bobl rydych yn bwriadu eu hysbysu i weld eu bod yn hapus i gael eu henwi yn eich LPA.

Esboniwch:

- nad oes rhaid iddyn nhw wneud dim byd ar unwaith
- mai dim ond pan fyddwch chi neu’ch atwrneiod yn gwneud cais i gofrestru’ch LPA y byddan nhw’n cael eu hysbysu
- y bydd eu henwau a’u cyfeiriadau’n cael eu hanfon i Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus
- nad oes rhaid iddyn nhw wneud dim pan fydd y Swyddfa’n cysylltu â nhw, heblaw eu bod yn poeni am rywbeth

# Rhan A7 – Dymuniadau a chyfarwyddiadau

## Llenwch adran 7 (dewisol)



Os byddwch yn llenwi'r dudalen hon a bod angen rhagor o le, ticiwch y blwch ar waelod adran 7 a defnyddiwch ddalen barhad 2. Rhowch 'X' naill ai yn y blwch 'Dymuniadau' neu yn y blwch 'Cyfarwyddiadau' ar ddalen barhad 2. Os bydd angen rhagor o le o hyd, gallwch wneud copïau o ddalen barhad 2.

**Rhaid** ichi lofnodi dalen barhad 2 cyn ichi lofnodi adran 9 o'ch LPA.

## Rhagor o wybodaeth

Gallwch roi cyfarwyddiadau i'ch atwrneiod neu ddweud wrthyn nhw am eich dymuniadau yn yr adran hon o'r LPA - ond fel rheol, does dim rhaid ichi wneud hyni.

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gadael y dudalen hon yn wag.

Yr unig amgylchiadau lle bydd yn **rhaid** ichi ysgrifennu cyfarwyddyd yw mewn LPA ariannol os oes gennych fuddsoddiadau sy'n cael eu rheoli gan fanc a'ch bod am i hynny barhau. Cysylltwch â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus neu â chynghorydd cyfreithiol os ydych am gael cyngor am y geiriad.

Gallwch gael sgwrs â'ch atwrneiod ac esbonio sut yr hoffech iddyn nhw weithredu ar eich rhan. Bydd eich atwrneiod wedyn yn rhydd i benderfynu fel y maen nhw'n ei weld yn dda, gan wybod beth fyddai orau gennych.

Os nad ydych yn siŵr beth y gallwch chi ei gynnwys yn yr adran hon o'ch LPA, efallai yr hoffech gael cyngor cyfreithiol.

Gall cyfarwyddiadau neu ddymuniadau cymhleth neu rai sydd wedi'u geirio'n wael olygu na fydd eich LPA yn gweithio.

### Dymuniadau a chyfarwyddiadau: diffiniadau

**Dymuniadau** yw'r hyn y byddech yn hoffi i'ch atwrneiod i gyd feddwl amdanyn nhw wrth benderfynu pethau drosoch. Does dim rhaid i'ch atwrneiod eu dilyn, ond dylen nhw eu cadw mewn cof.

Os byddwch yn ysgrifennu unrhyw ddymuniadau, dylech osgoi geiriau fel 'rhaid' a 'gorfod'. Yn hytrach, defnyddiwch eiriau fel 'byddai'n well gen i' ac 'fe hoffwn i', er mwyn iddi fod yn glir eich bod yn rhoi cyngor i'ch atwrneiod. Os bydd yn **rhaid** i'ch atwrneiod wneud rhywbeth, dylech gynnwys hynny yn eich cyfarwyddiadau.

Bydd **cyfarwyddiadau** yn dweud wrth eich atwrneiod beth y mae'n **rhaid** iddyn nhw'i wneud wrth weithredu ar eich rhan.

Os byddwch yn ysgrifennu unrhyw gyfarwyddiadau, defnyddiwch eiriau fel 'rhaid', a 'gorfod'.

Mae cyfarwyddiadau'n achosi mwy o broblemau na dymuniadau. Os ydych am roi cyfarwyddiadau, darllenwch drwy'r wybodaeth isod i gael gwybod am broblemau a chamgymeriadau cyffredin sy'n codi. Gallai fod yn well eu mynegi ar ffurf dymuniadau.

Os ydych am dalu ffioedd i'ch atwrneiod, esboniwch hyn yn y cyfarwyddiadau. Gweler 'Cyfarwyddiadau i dalu ffioedd' ar dudalen 32 o'r canllawiau hyn.

Isod, mae 'na ambell enghraifft o ddymuniadau a chyfarwyddiadau cyffredin ar gyfer y ddau fath o LPA. Mae'n bosibl na fydd y rhain yn iawn i chi - dim ond syniad ydyn nhw o'r hyn y gallech ei ysgrifennu. Dylai eich dymuniadau a'ch cyfarwyddiadau fod am bethau sy'n bwysig i chi.

## Enghreifftiau o ddymuniadau

### LPA iechyd a gofal

Dyma ambell enghraifft o ddymuniadau y gallech ysgrifennu amdanynt mewn LPA iechyd a gofal:

"Byddai'n well gen i fyw o fewn pum milltir i'm chwaer."

"Byddwn i'n hoffi cael meddyginiaethau generig ar bresgripsiwn lle bydd y rheini ar gael."

"Byddwn yn hoffi gwneud rhyw fath o ymarfer corff o leiaf deirgwaith yr wythnos pan fyddaf yn gorfforol abl i wneud hynny. Byddwn yn hoffi treulio amser yn yr awyr agored o leiaf unwaith y diwrnod, dim ots a ydw i'n gallu cerdded neu beidio."

"Mi hoffwn i'm hanifeiliaid anwes fyw gyda fi gyhyd ag sy'n bosibl - os byddaf yn mynd i gartref gofal, byddwn yn hoffi mynd â nhw gyda fi."

"Byddwn yn hoffi cael torri fy ngwallt, a chael gwneud fy ewinedd a thrin fy nhraed yn rheolaidd."

### LPA eiddo a materion ariannol

Dyma ambell enghraifft o ddymuniadau y gallech ysgrifennu amdanyn nhw mewn LPA ariannol:

"Byddwn yn hoffi ailfuddsoddi'r holl log o fuddsoddiadau pob blwyddyn yn lwfans ISA y flwyddyn wedyn."

"Hoffwn gadw balans o £1,000 o leiaf yn fy nghyfrif cyfredol."

"Byddai'n well gen i fuddsoddi mewn cronfeydd egwyddorol."

"Byddwn yn hoffi i'm hatwrneiod ymgynghori â'm meddyg os byddan nhw'n meddwl nad oes gen i'r gallu meddyliol i benderfynu ynglŷn â'm cartref."

"Byddwn yn hoffi rhoi £100 bob blwyddyn i Age UK."

## Enghreifftiau o gyfarwyddiadau

### LPA iechyd a gofal

Dyma ambell enghraifft o gyfarwyddiadau y gallech eu rhoi mewn LPA iechyd a gofal:

"Rhaid i fy atwrneiod beidio â phenderfynu y dylwn symud i ofal preswyl, heblaw bod fy meddyg o'r farn na alla'i fyw'n annibynnol rhagor."

"Rhaid i fy atwrneiod beidio â chytuno i unrhyw driniaeth sy'n cynnwys cynhyrchion gwaed, oherwydd bod hyn yn groes i fy nghrefydd."

"Rhaid i fy atwrneiod sicrhau mai dim ond bwyd llysieuol ga'i."

### LPA eiddo a materion ariannol

Dyma ambell enghraifft o gyfarwyddiadau y gallech eu rhoi mewn LPA ariannol:

"Rhaid i fy atwrneiod ymgynghori â chynghorydd ariannol cyn buddsoddi mwy na £10,000."

"Chaiff fy atwrneiod ddim gwerthu fy nghartref nes na alla'i fyw'n annibynnol rhagor, ym marn fy meddyg.

"Chaiff fy atwrneiod ddim rhoi rhoddion o gwbl."

Rhaid i fy atwrneiod barhau i roi i elusennau rwyf wedi'u cefnogi neu i elusennau rwyf wedi sefydlu archeb sefydlog ar eu cyfer."

"Rhaid i fy atwrneiod anfon cyfrifon blynyddol at fy mrodyr a'm chwiorydd."

"Rhaid i fy atwrneiod roi cyfarwyddyd i gyfrifydd treth baratoi fy ffurflen dreth flynyddol".

Os ydych wedi dewis (yn adran 5 o ffurflen yr LPA) i'ch atwrneiod weithredu o dan eich LPA ariannol dim ond pan fyddwch wedi colli'ch galluedd meddyliol, gallech ychwanegu cyfarwyddiadau am sut y dylid asesu'ch galluedd meddyliol. Er enghraifft, gallech ysgrifennu:

"Dim ond os bydd meddyg yn cadarnhau'n ysgrifenedig nad oes gen i'r gallu i wneud penderfyniadau am fy materion ariannol y bydd yr atwrneiaeth arhosol hon yn berthnasol."

Serch hynny, os ydych yn ymddiried yn eich atwrneiod i asesu'ch galluedd meddyliol, does dim angen ichi ychwanegu cyfarwyddiadau fel hyn.

### Achos arbennig: gwneud dwy LPA ar gyfer penderfyniadau ariannol

Efallai yr hoffech wneud dwy LPA ar gyfer penderfyniadau ariannol, un ar gyfer eich materion personol, ac un arall ar gyfer eich materion busnes, er mwyn i wahanol atwrneiod ofalu am wahanol bethau. Os felly, dylech esbonio'r hyn rydych am ei weld yn digwydd yn y cyfarwyddiadau ar gyfer pob un.

Er enghraifft, mewn un LPA gallech ddweud:

"Dim ond awdurdod i ddefnyddio fy nghyfrif banc personol sydd gan fy atwrneiod. Chân nhw ddim mynd at fy nghyfrif busnes na gwneud penderfyniadau ynglŷn â'm busnes."

Yn yr LPA arall, byddech yn dweud:

"Dim ond awdurdod i ddefnyddio fy nghyfrifon busnes a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'm busnes sydd gan fy atwrneiod. Ni chânt ddefnyddio fy nghyfrif personol na gwneud penderfyniadau am fy materion ariannol personol."

## Osgoi problemau

Gall cyfarwyddiadau a dymuniadau greu problemau. Mae'n hawdd gofyn am rywbeth sydd ddim yn cael ei ganiatáu dan y gyfraith.

Os hoffech ychwanegu cyfarwyddiadau a dymuniadau, dyma ambell gamgymeriad cyffredin i'w osgoi.

## Chewch chi ddim newid sut mae'r atwrneiod wedi cael eu penodi i weithredu

Peidiwch â phenodi atwrneiod i wneud penderfyniadau mewn un ffordd, ac wedyn cynnwys cyfarwyddiadau sy'n gofyn iddyn nhw weithredu mewn ffordd wahanol.

Os ydych wedi dweud yn adran 3 ei bod yn rhaid i'ch atwrneiod weithredu 'ar y cyd' - ac felly eu bod yn gorfod gwneud pob penderfyniad yn unfrydol - rhaid ichi beidio ag ychwanegu yma y caiff y lleill barhau i weithredu os bydd un yn rhoi'r gorau i fod yn atwrnai.

Os ydych wedi dweud y dylai eich atwrneiod weithredu 'ar y cyd ac yn unigol' - ac felly y cân nhw wneud unrhyw benderfyniad ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd - rhaid ichi beidio ag ychwanegu'r mathau hyn o gyfarwyddiadau:

- ei bod yn rhaid i un atwrnai wneud yr hyn y mae atwrnai arall yn ei ddweud
- ei bod yn rhaid i un atwrnai ddelio â'ch busnes ac un arall â'ch materion preifat
- y dylai'r mwyafrif benderfynu os bydd atwrneiod yn anghytuno
- ei bod yn rhaid iddyn nhw wneud rhai penderfyniadau gyda'i gilydd - os mai dyma yw'ch dymuniad, dylech eu penodi yn adran 3 o'r LPA i weithredu 'ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau, ac ar y cyd ac yn unigol ar gyfer penderfyniadau eraill'.

Wnaiff eich LPA ddim gweithio os dewiswch chi gynnwys cyfarwyddiadau fel hyn.

## Mae'r dymuniadau neu'r cyfarwyddiadau'n berthnasol i bob atwrnai

Rhaid i bob dymuniad neu gyfarwyddyd fod yn berthnasol i bob un o'ch atwrneiod. Rhaid ichi beidio ag ysgrifennu, er enghraifft, mai dim ond eich merch a gaiff werthu'ch tŷ, neu na chaiff un o'r atwrneiod wneud penderfyniadau ynglŷn â rhoi rhoddion.

## Byddwch yn ofalus gyda rhoddion

Bydd cyfarwyddiadau am roddion yn aml yn achosi problemau. Mae cyfyngiadau llym ar y mathau o roddion y caiff atwrneiod eu rhoi ar eich rhan. Maen nhw'n cael rhoi anrhegion ar 'adegau defodol', gan gynnwys adeg priodas, penblwyddi a gwyliau crefyddol. Maen nhw'n cael rhoi i elusennau rydych wedi rhoi iddynt o'r blaen. Dylai unrhyw roddion fod yn rhesymol a dylid cadw mewn cof faint o arian sydd gennych.

> Chewch chi ddim rhoi cyfarwyddiadau i'ch atwrneiod fynd y tu hwnt i'r terfynau hyn.

Dyma rai o'r mathau o roddion na chewch chi mo'u hawdurdodi:

- cronfeydd ymddiriedolaeth i wyrion
- talu ffioedd ysgol i wyrion
- benthyciadau di-log i'r teulu
- cynhaliaeth i unrhyw aelod o'r teulu ar wahân i'ch gwraig, eich gŵr, eich partner sifil neu'ch plentyn sydd o dan 18 oed

Rhaid i'ch atwrneiod wneud cais i'r Llys Gwarchod os byddan nhw am roi rhoddion fel hyn ar eich rhan.

Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn rhoi canllawiau i atwrneiod ynglŷn â rhoddion. Mae'r canllawiau hyn i'w gweld yn www.gov.uk/government/publications/public-guardian-practice-note-gifts

## Camgymeriadau eraill

Dylech osgoi'r camgymeriadau cyffredin hyn:

- Ni chewch ddweud wrth eich atwrneiod am wneud rhywbeth sydd yn erbyn y gyfraith - mae hyn yn cynnwys unrhyw beth sy'n gysylltiedig ag ewthanasia a helpu rhywun i gyflawni hunanladdiad
- Ni chewch ddweud y dylai atwrneiod weithredu er lles gorau unrhyw un arall, gan gynnwys eich gwraig, eich gŵr, eich partner neu'ch plant. Bydd eich atwrneiod yn gweithredu drosoch chi a neb arall
- Ni chewch ddweud na chaiff atwrnai wrth gefn ond ddechrau gweithredu o dan amgylchiadau penodol. Er enghraifft, chewch chi ddim defnyddio cyfyngiadau i ychwanegu amgylchiadau arbennig - dyweder bod atwrnai gwreiddiol ar ei wyliau

- sy'n dweud pa bryd y caiff eich atwrnai wrth gefn gamu i mewn

- Peidiwch ag ychwanegu cyfyngiadau iechyd a gofal at LPA ariannol. Peidiwch ag ychwanegu cyfyngiadau ariannol at LPA iechyd a gofal. Yn hytrach, dylech wneud LPA ar wahân i bob un
- Ni chewch ddweud wrth atwrnai am newid eich ewyllys - mae hynny y tu hwnt i'w bwerau
- Ni chewch roi'r pŵer i atwrnai benodi atwrnai wrth gefn

## Cyfarwyddiadau i dalu ffioedd

### Atwrneiod proffesiynol

Bydd atwrneiod proffesiynol, er enghraifft cyfreithwyr neu gyfrifyddion, yn codi am eu gwasanaethau. Mae'n bosibl hefyd y byddan nhw'n hawlio ffioedd a threuliau rhesymol.

Ysgrifennwch y swm rydych wedi cytuno i'w dalu iddyn nhw yn y cyfarwyddiadau yn adran 7 neu pennwch y ffi drwy gyfeirio at gyfraddau safonol ac ysgrifennu rhywbeth yn debyg i hyn:

> "Rwyf am i fy atwrneiod proffesiynol gael tâl sy'n cyfateb i'r gyfradd safonol sy'n cael ei thalu i gyfreithwyr fel y'u pennir gan [rhowch enw corff proffesiynol perthnasol yma].

Bydd ffioedd a threuliau'n cael eu talu o'ch cronfeydd.

### Atwrneiod sydd ddim yn atwrneiod proffesiynol

Bydd llawer o atwrneiod yn gwneud y gwaith yn ddi-dâl;. Er enghraifft, os byddwch yn penodi atwrnai nad yw'n atwrnai proffesiynol - er enghraifft eich gŵr, eich gwraig, eich partner, aelod o'r teulu neu ffrind - maen siŵr y byddan nhw'n hapus i weithredu ar eich rhan heb gael eu talu. Wedi dweud hynny, does dim i'w hatal rhag hawlio treuliau rhesymol, er enghraifft, costau postio, teithio a chost cael cyfrifydd i baratoi cyfrifon blynyddol.

Os nad ydych am dalu ffioedd i'ch atwrneiod, peidiwch ag ysgrifennu dim. Byddan nhw'n dal i allu hawlio treuliau.

Os byddwch yn cytuno i dalu ffi, rhaid ichi ysgrifennu hyn yn eich cyfarwyddiadau. Os **na wnewch chi hyn,** fydd hi **ddim** yn bosibl talu i'ch atwrnai. Gallwch bennu gwahanol ffioedd ar gyfer gwahanol atwrneiod.

I atwrneiod sydd ddim yn atwrneiod proffesiynol, bydd y ffioedd yn aml yn cael eu pennu'n daliad blynyddol.

Dyma ambell enghraifft o'r math o gyfarwyddyd y gallech ei roi ar gyfer talu ffi i'ch atwrneiod:

> "Rhaid talu un ffi bob blwyddyn i bob atwrnai, sef £1000, a rhaid gwneud y taliad ar 20 Rhagfyr bob blwyddyn. Bydd y ffioedd yn dod i ben pan fydd y swm sydd yn fy ystâd wedi gostwng i £[rhowch y swm]."

> "Rwyf am i £[rhowch y swm] y flwyddyn gael ei dalu i bob un o'm hatwrneiod am eu gwasanaethau o dan yr LPA hon. Ni fydd fy atwrneiod yn cael eu talu mwyach pan fydd fy arian wedi gostwng i £[rhowch y swm}."

Bydd ffioedd a threuliau'n cael eu talu o'ch cronfeydd.

# Rhan A8 – eich hawliau a'ch cyfrifoldebau cyfreithiol

## Darllenwch adran 8

Rhaid i bawb sy'n rhan o'r atwrneiaeth arhosol hon ddarllen yr adran hon cyn llofnodi.



## Rhagor o wybodaeth

Mae LPA yn gytundeb cyfreithiol (mae hefyd yn cael ei galw'n 'weithred') rhyngoch chi a'ch atwrneiod.

Mae Adran 8 yn cynnwys gwybodaeth bwysig y mae'n rhaid i chi, eich atwrneiod a darparwr eich tystysgrif ei darllen oherwydd ei bod yn rhan o'r cytundeb cyfreithiol rhyngoch chi a nhw. Mae egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r rheolau yng Nghod Ymarfer y Ddeddf honno, y mae'n rhaid i'ch atwrneiod eu dilyn, wedi'u rhestru yn yr adran hon o'r LPA.

Gallwch weld Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn www.gov.uk/opg/mca-code

Os oes angen help arnoch i edrych ar wefannau, ewch i'ch llyfrgell leol.

### Eich lles gorau

Mae'r gyfraith yn dweud ei bod yn rhaid i'ch atwrneiod weithredu bob tro er eich lles gorau wrth wneud penderfyniadau a gweithredu ar eich rhan.

Rhaid iddyn nhw:

- wneud popeth yn eu gallu i'ch helpu i wneud penderfyniad, yn rhannol neu'n llwyr
- meddwl am y pethau y byddech chi'n eu hystyried petaech chi'n gwneud y penderfyniad
- cael eu tywys gan eich credoau a'ch gwerthoedd personol, gwleidyddol, diwylliannol, moesol neu grefyddol wrth benderfynu drosoch chi

Er mwyn gwneud hyn, dylen nhw:

- gael gwybod beth yw'ch dymuniadau a'ch barn drwy ofyn ichi neu drwy ystyried eich ymddygiad a'ch geiriau ar lafar neu'r rhai sydd wedi'u hysgrifennu yn eich LPA ac mewn mannau eraill
- pwyso a mesur a oes modd gohirio'r penderfyniad tan rywbryd eto, pan fyddai efallai'n haws ichi ei wneud
- osgoi cyfyngu ar eich hawliau
- ymgynghori â'r teulu ac â ffrindiau ac ag unrhyw un arall a oedd yn gwybod am eich dymuniadau, eich teimladau a'ch barn neu'n eu deall
- peidio â llunio tybiaethau am ansawdd eich bywyd neu am yr hyn sydd ei angen arnoch dim ond oherwydd eich oedran, eich ymarweddiad, eich cyflwr neu'ch ymddygiad

# Cyn ichi lofnodi

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi llenwi pob adran y mae’n rhaid ichi ei llenwi ac unrhyw adrannau dewisol rydych yn dymuno’u defnyddio.


Ar ôl ichi lofnodi, chewch chi ddim newid eich LPA - bydd angen ichi wneud LPA newydd os ydych am newid rhywbeth.

Mae’r tabl isod yn crynhoi popeth y dylech fod wedi’i wneud cyn ichi lofnodi. Mae’r rhesi llwyd yn dangos yr adrannau y mae’n rhaid ichi eu llenwi; mae’r lleill yn ddewisol.

| | Enw’r adran | Y wybodaeth sydd ei hangen | |
|---|---|---|---|
| 1 | Y rhoddwr | Eich enw, eich dyddiad geni a’ch cyfeiriad. Rhowch gyfeiriad ebost os oes gennych un | |
| 2 | Yr atwrneiod (o leiaf un) | Enwau, cyfeiriadau a dyddiadau geni eich atwrneiod. | Mwy na phedwar atwrnai?<br>Defnyddiwch ddalen barhad 1 a’i llofnodi cyn ichi lofnodi’r LPA |
| 3 | Sut y dylai eich atwrneiod wneud penderfyniadau? | Marciwch un blwch i ddangos sut y bydd eich atwrneiod yn gwneud penderfyniadau | |
| 4 | Atwrneiod wrth gefn | Enwau, cyfeiriadau a dyddiadau geni unrhyw atwrneiod wrth gefn | Mwy na dau atwrnai wrth gefn?<br>Defnyddiwch ddalen barhad 1 a’i llofnodi cyn ichi lofnodi’r LPA<br>Newid y ffordd y bydd eich atwrneiod wrth gefn yn gweithredu neu’n camu i mewn?<br>Defnyddiwch ddalen barhad 2 a’i llofnodi cyn ichi lofnodi’r LPA |
| 5 | LPA ar gyfer eiddo a materion ariannol yn unig: Pa bryd y caiff eich atwrneiod wneud penderfyniadau? | Ticiwch un blwch i ddewis pa bryd y caiff eich atwrnai/atwrneiod wneud penderfyniadau | |
| | LPA ar gyfer iechyd a lles yn unig: triniaeth cynnal bywyd | Ticiwch un blwch i roi’r p er naill ai i’ch atwrneiod (opsiwn A) neu i’ch meddygon (opsiwn B) benderfynu am driniaeth cynnal bywyd | |
| 6 | Pobl i’w hysbysu pan gaiff yr LPA ei chofrestru | Enwau a chyfeiriadau’r bobl i’w hysbysu | Dweud wrth bump o bobl?<br>Defnyddiwch ddalen barhad 1 a’i llofnodi cyn ichi lofnodi’r LPA |
| 7 | Dymuniadau a chyfarwyddiadau | Unrhyw ddymuniadau neu gyfarwyddiadau rydych am i’ch atwrneiod eu dilyn neu eu cadw mewn cof | Dymuniadau a chyfarwyddiadau?<br>Defnyddiwch ddalen barhad 2 a’i llofnodi cyn ichi lofnodi’r LPA |

# Rhan A9 – llofnod: rhoddwr

## Adran 9: llofnodwch eich LPA



Rhaid i'r bobl sy'n rhan o'r LPA ei llofnodi yn y drefn gywir. Os na wnân nhw hynny, wnaiff Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus mo'i chofrestru ac ni fydd eich atwrneiod yn gallu ei defnyddio hi.

Rhaid ichi lofnodi'ch LPA **cyn** i neb arall ei llofnodi.

Os ydych wedi defnyddio dalen barhad 1 neu 2, gwnewch yn siŵr eich bod wedi'u llofnodi cyn ichi lofnodi'r adran hon.

Os ydych yn gwneud LPA iechyd a lles, llofnodwch adran 5 hefyd - triniaeth cynnal bywyd - cyn ichi lofnodi'r adran hon.

Pan fyddwch yn llofnodi adran 9 o'r LPA, byddwch yn creu cytundeb cyfreithiol â'ch atwrneiod. Rydych wedi'ch cyfrwymo'n gyfreithiol gan bopeth sydd wedi'i ysgrifennu yn y ffurflen hyd at y pwynt hwn, gan gynnwys adran 8 o'r LPA ('Eich hawliau a'ch cyfrifoldebau cyfreithiol') a'r datganiad ar y dudalen hon.

## Rhagor o wybodaeth

### Trefn llofnodi

Rhaid llofnodi'r LPA yn y drefn hon:

**1. Eich llofnod chi (y rhoddwr)**

Rhaid i chi (y rhoddwr) lofnodi'ch LPA cyn i neb arall ei llofnodi.

Rhaid i chi (y rhoddwr) lofnodi:

- adran 5 o'r LPA, am driniaeth cynnal bywyd os LPA ar gyfer penderfyniadau ynglŷn ag iechyd a gofal yw hi
- Dalen barhad /dalenni parhad 1, os ydych wedi'u defnyddio
- Dalen barhad /dalenni parhad 2, os ydych wedi'u defnyddio
- adran 9 o'r LPA

Mae'n well llofnodi popeth ar yr un diwrnod - er nad oes rhaid ichi wneud hynny - ond rhaid llofnodi adran 9 olaf.

Os na allwch lofnodi'r LPA hon, cewch wneud marc yn lle hynny.

Os na allwch lofnodi na gwneud marc, edrychwch isod ar 'Rhoddwyr sy'n methu llofnodi na gwneud marc'. Bydd y sawl rydych wedi'i ddewis yn gallu llofnodi ar eich rhan.

Rhaid cael tyst annibynnol hefyd i'ch gwylio'n llofnodi'ch LPA. Rhaid i'r tyst lofnodi'n syth ar eich ôl chi.

Os ydych yn gwneud LPA ar gyfer penderfyniadau ynglŷn ag iechyd a gofal, rhaid iddyn nhw hefyd dystio ichi'n llofnodi adran 5 am driniaeth cynnal bywyd.

Chaiff eich tyst ddim bod:

- o dan 18 oed
- yn un o'ch atwrneiod
- yn un o'ch atwrneiod wrth gefn
- yn gyflogedig gan gorfforaeth ymddiriedolaeth sy'n atwrnai neu'n atwrnai wrth gefn ichi (LPA ariannol yn unig)

### 2. Bydd darparwr y dystysgrif yn llofnodi adran 10

Gweler rhan A10 o'r canllawiau hyn, sef 'Llofnod: darparwr y dystysgrif.'

### 3. Bydd pob un o'r atwrneiod a'r atwrneiod wrth gefn yn llofnodi adran 11

Gweler rhan A11 o'r canllawiau hyn, sef 'Llofnod: atwrnai neu atwrnai wrth gefn.'

## Rhoddwyr sy'n methu llofnodi na gwneud marc: Dalen barhad 3

Os na allwch lofnodi na gwneud marc, caiff rhywun lofnodi ar eich rhan gan ddefnyddio dalen barhad 3.

**Rhaid ichi fod yn bresennol a rhaid ichi ddweud wrth yr unigolyn hwnnw am lofnodi.**

Rhaid i ddau o bobl dystio i'r llofnod hwnnw. Chaiff y tystion hynny ddim bod:

- o dan 18 oed
- yn atwrneiod ichi
- yn atwrneiod wrth gefn ichi
- yn gyflogedig gan gorfforaeth ymddiriedolaeth sy'n atwrnai neu'n atwrnai wrth gefn ichi (LPA ariannol yn unig)

# Rhan A10 – llofnod: darparwr y dystysgrif

## Llenwch adran 10



Rhaid i ddarparwr y dystysgrif lofnodi **ar ôl** y rhoddwr ond **cyn** yr atwrneiod.

Rhaid i ddarparwr y dystysgrif ddarllen adrannau 8 a 10 o'r LPA cyn iddyn nhw lofnodi'ch LPA. Wedyn, gallan nhw roi eu henw a'u cyfeiriad a llofnodi a dyddio adran 10.

## Rhagor o wybodaeth

Rhywun diduedd yw darparwr y dystysgrif sy'n cadarnhau eich bod yn deall yr hyn rydych yn ei wneud ac nad oes neb yn eich gorfodi i wneud LPA. Rhaid iddyn nhw gadarnhau:

- eich bod yn deall arwyddocâd yr LPA
- nad oes neb wedi'ch rhoi dan bwysau i'w gwneud
- nad oes rhyw dwyll wedi bod wrth wneud yr LPA
- nad oes rheswm arall dros boeni

Os oes modd, dylen nhw drafod eich LPA â chi'n breifat, heb atwrneiod na neb arall yn bresennol, cyn iddyn nhw lofnodi i 'ardystio' i'w rhan nhw o'r LPA.

Caiff darparwr eich tystysgrif dystio i'ch llofnodi'n chi a rhai eich atwrneiod.

### Pwy gaiff fod yn ddarparwr tystysgrif?

Rhaid i ddarparwr tystysgrif fod yn 18 oed o leiaf a naill ai:

- yn gyfaill, yn gydweithiwr neu'n rhywun rydych wedi'i 'nabod yn dda ers dwy flynedd o leiaf - rhaid iddyn nhw fod yn fwy na dim ond cydnabod
- yn feddyg neu'n gyfreithiwr ichi neu'n rhywun sydd â'r sgiliau proffesiynol i farnu a ydych yn deall yr hyn rydych yn ei wneud ac nad ydych yn cael eich gorfodi i wneud LPA

Caiff 'pobl i'w hysbysu' fod yn ddarparwyr y dystysgrif.

Mae 'na nifer o bobl na chân nhw fod yn ddarparwr tystysgrif - er enghraifft, aelodau o'ch teulu neu o deuluoedd eich atwrneiod. Mae 'na restr lawnach o'r rhain isod.

Rhaid i ddarparwr y dystysgrif lofnodi ar ôl ichi wneud ac fe gaiff lofnodi ar yr un diwrnod â chi (y rhoddwr) neu cyn gynted â phosibl wedyn.

### Rhywun sydd wedi'ch 'nabod yn dda ers dwy flynedd o leiaf

Dylech ofyn i ffrind neu gymydog, rhywun o'ch clwb cymdeithasol neu chwaraeon, cydweithiwr, neu rywun tebyg. Rhaid iddyn nhw fod wedi'ch 'nabod ers dwy flynedd o leiaf. Rhaid iddyn nhw fod yn eich 'nabod chi'n ddigon da i gael sgwrs onest â chi am wneud eich LPA a'r pethau y mae'n rhaid iddyn nhw'u cadarnhau wrth lofnodi'r LPA.

Os oes modd, dylen nhw drafod eich LPA â chi'n breifat, heb atwrneiod na neb arall yn bresennol, cyn iddyn nhw lofnodi i 'ardystio' i'w rhan nhw o'r LPA.

## Rhywun sydd â'r sgiliau proffesiynol perthnasol

Fel rheol, byddai rhywun sydd â'r sgiliau proffesiynol perthnasol yn un o'r canlynol:

- gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig, er enghraifft eich meddyg teulu
- cyfreithiwr, bargyfreithiwr neu eiriolwr
- gweithiwr cymdeithasol cofrestredig
- eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol

Mae'n bosibl bod gan weithwyr proffesiynol eraill sgiliau addas i farnu a allwch wneud LPA neu beidio - cysylltwch â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus os nad ydych chi'n siŵr pwy i'w ddewis yn ddarparwr tystysgrif.

Efallai y bydd yn rhaid ichi dalu i weithwyr proffesiynol fod yn ddarparwr tystysgrif ichi.

## Pobl sydd ddim yn cael bod yn ddarparwr tystysgrif

Chaiff darparwr y dystysgrif ddim bod yn un o'r rhain:

- yn atwrnai neu'n atwrnai wrth gefn ar gyfer yr LPA
- yn atwrnai neu'n atwrnai wrth gefn mewn unrhyw LPA neu atwrneiaeth barhaus arall rydych wedi'i gwneud eisoes
- yn aelod o'ch teulu chi neu'n aelod o un o deuluoedd yr atwrneiod, gan gynnwys gwŷr, gwragedd, partneriaid sifil, teulu yng nghyfraith a llys-berthnasau
- yn bartner dibriod, yn gariad naill ai i chi neu i un o'r atwrneiod - ni waeth a ydyn nhw'n byw yn yr un cyfeiriad neu beidio
- yn bartner busnes i chi neu'n bartner busnes i un o'ch atwrneiod
- yn gyflogedig gennych chi neu gan un o'ch atwrneiod
- yn berchennog, yn rheolwr, yn gyfarwyddwr neu'n gyflogedig yn y cartref gofal lle rydych yn byw
- yn unrhyw un sy'n cadw corfforaeth ymddiriedolaeth neu'n gweithio iddi ac sydd wedi'i benodi'n atwrnai ar gyfer LPA penderfyniadau ariannol

Os nad ydych yn siŵr a oes gan rywun yr hawl i fod yn ddarparwr tystysgrif ichi, anfonwch e-bost at y Swyddfa Gwarcheidwad Cyhoeddus yn customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk neu ffoniwch ganolfan gyswllt y Swyddfa ar 0300 456 0300.

# Rhan A11 – llofnod: atwrnai neu atwrnai wrth gefn

## Llenwch adran 11



Rhaid i'ch atwrneiod a'ch atwrneiod wrth gefn ysgrifennu eu henwau a llofnodi a dyddio'ch LPA.

Rhaid i atwrneiod ac atwrneiod wrth gefn lofnodi **ar ôl** i ddarparwr y dystysgrif lofnodi.

Rhaid cael tyst i'w llofnod/llofnodion. Rhaid i'r tyst/tystion ysgrifennu eu henw a'u cyfeiriad llawn yn ogystal â llofnodi. Chaiff y rhoddwr ddim bod yn dyst.

Mae pedwar copi o'r dudalen hon yn y ffurflen. Os bydd angen rhagor arnoch, gwnewch lungopïau. Rhaid i **bob** atwrnai ac atwrnai wrth gefn lofnodi adran 11 (corfforaethau ymddiriedolaeth yw'r unig eithriad: bydd y rheini'n llenwi ac yn llofnodi dalen barhad 4 yn lle hynny).

## Rhagor o wybodaeth

Pan fydd eich atwrneiod yn llofnodi adran 11, byddan nhw'n creu cytundeb cyfreithiol â chi (y rhoddwr) Byddan nhw wedi'u cyfrwymo'n gyfreithiol gan bopeth sydd wedi'i ysgrifennu yn y ffurflen hyd at y pwynt hwn, gan gynnwys adran 8 o'r LPA ('Eich hawliau a'ch cyfrifoldebau cyfreithiol') a'r datganiad yn adran 11.

Rhaid iddyn nhw ddarllen yr LPA (gan gynnwys adran 8) neu rhaid i rywun ei darllen iddyn nhw. Wedyn, rhaid iddyn nhw lofnodi adran 11 yng ngŵydd tyst diduedd.

Rhaid iddyn nhw ddarllen yr LPA (gan gynnwys adran 8) neu rhaid i rywun ei darllen iddyn nhw. Wedyn, rhaid iddyn nhw lofnodi adran 11 yng ngŵydd tyst diduedd. Caiff yr atwrneiod a'r atwrneiod wrth gefn dystio i lofnodion ei gilydd. Chewch chi (y rhoddwr) ddim bod yn dyst.

Dylai atwrneiod ac atwrneiod wrth gefn lofnodi cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl i ddarparwr y dystysgrif lofnodi – gorau oll os byddan nhw i gyd yn llofnodi ar yr un diwrnod.

# Rhan B1 – cofrestru eich atwrneiaeth arhosol (LPA)

## Rhaid ichi gofrestru

Cyn ichi allu defnyddio'r LPA, rhaid ei chofrestru gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Dim ond y rhoddwr neu un o'r atwrneiod a gaiff wneud cais i'w chofrestru.

Caiff atwrnai wneud cais i gofrestru'r LPA ar ei ben ei hun:

- os yr atwrnai hwnnw yw'r unig atwrnai
- os yw'r atwrneiod wedi'u penodi 'ar y cyd ac yn unigol'
- os yw'r atwrneiod wedi'u penodi 'ar y cyd ar gyfer rhai penderfyniadau, ar y cyd ac yn unigol ar gyfer penderfyniadau eraill' - heblaw bod y rhoddwr wedi dweud yn nogfen yr LPA ei bod yn rhaid i'r atwrneiod i gyd wneud cais gyda'i gilydd

Os ydych wedi cael eich penodi i weithredu ar y cyd, rhaid ichi wneud cais i gofrestru'r LPA gyda'r atwrneiod eraill i gyd.

Edrychwch ar adran 3 o ffurflen yr LPA i weld sut mae'r atwrneiod wedi cael eu penodi.

Cyn i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus gofrestru LPA, rhaid iddi sicrhau

- bod yr LPA yn gyfreithiol gywir
- nad oes dim gwallau yn yr LPA
- bod pobl wedi cael cyfle i wrthwynebu os ydyn nhw'n poeni am rywbeth

Rhaid ichi ddweud wrth unrhyw 'bobl i'w hysbysu' cyn ichi gofrestru. Rhaid ichi ddefnyddio ffurflen LP3 i wneud hyn. Mae rhagor o fanylion yn rhan C o'r canllawiau hyn. Yn ôl y gyfraith, rhaid disgwyl am bedair wythnos cyn y caiff Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus gofrestru LPA. Mae hyn yn rhoi cyfle i unrhyw bobl sydd i'w hysbysu wrthwynebu.

Os nad oes rhesymau da dros wrthwynebu ac os nad oes problemau gyda'r LPA, bydd y Swyddfa'n ei chofrestru ac yn ei phostio yn ôl. Bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn stampio'r ffurflen wreiddiol i ddangos ei bod yn ddilys ac yn barod i'w defnyddio. Dyma'r ddogfen LPA swyddogol.

## Cofrestrwch yn awr

Os byddwch yn gwneud cais i gofrestru'r LPA cyn gynted ag y caiff ei llofnodi, bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gallu sylwi ar gamgymeriadau cyn iddi fynd yn rhy hwyr i'w newid. Dim ond os oes gan y rhoddwr alluedd meddyliol y bydd modd cywiro camgymeriadau.


Os byddwch yn oedi cyn cofrestru, a bod y rhoddwr yn colli galluedd meddyliol, caiff yr atwrneiod ddal i wneud cais i gofrestru'r LPA. Serch hynny, fydd hi ddim yn bosibl cywiro unrhyw gamgymeriadau. Os bydd camgymeriadau, fydd y Swyddfa ddim yn gallu cofrestru'r LPA ac ni fydd yn bosibl ei defnyddio. Bydd yn rhaid i rywun wneud cais i'r Llys Gwarchodaeth er mwyn cael y pŵer i wneud penderfyniadau ar ran y rhoddwr neu i gael datganiad bod modd trin yr LPA fel petai'n ddilys. Gall hyn fod yn broses hir ac fe all gostio llawer mwy nag LPA.

Serch hynny, does dim rhaid ichi gofrestru'r LPA ar unwaith. Os ydych am ohirio'r cofrestru, yna llenwch adrannau 12 i 15 a ffurflen LP3 pan fyddwch yn barod i gofrestru'r LPA.

Bob tro y gwelwch chi'r gair 'chi' o hyn ymlaen, yn rhan B o'r canllawiau hyn, mae'n golygu'r sawl sy'n gwneud cais i gofrestru'r LPA: naill ai'r rhoddwr neu'r atwrnai/atwrneiod.

# Rhan B2 – cofrestru eich atwrneiaeth arhosol

## Llenwch adran 12



Rhowch 'X' mewn un blwch yn unig i ddweud ai'r rhoddwr ynteu'r atwrnai/atwrneiod ydych chi a'ch bod yn gwneud cais i gofrestru'r LPA.

Os atwrnai neu grŵp o atwrneiod ydych chi, rhowch eich enw(au) a'ch dyddiad(au) geni. Fel arall, gadewch y blychau hynny'n wag.

# Rhan B3 – at bwy yr hoffech inni anfon yr LPA?

## Llenwch adran 13



Bydd angen ichi ddewis un person inni gysylltu ag ef/hi os byddwn am holi unrhyw beth. At yr unigolyn hwn hefyd y byddwn yn anfon dogfen yr LPA ar ôl ei chofrestru.


Rhaid ichi roi 'X' ar un o'r tri opsiwn:

- y rhoddwr
- atwrnai
- rhywun arall:

Os byddwch yn dewis y rhoddwr neu atwrnai, gwnewch yn siŵr bod y cyfeiriad roesoch chi yn adran 1 o ffurflen yr LPA yn gywir. Os ydyn nhw wedi symud cartref, rhowch y cyfeiriad newydd yma.

# Rhan B4 – ffi ymgeisio

## Llenwch adran 14



### Sut yr hoffech chi dalu?

Dewiswch ffordd o dalu a rhowch 'X' yn y blwch 'Siec' neu 'Cerdyn'.

Os dewiswch chi 'Cerdyn', peidiwch ag anfon manylion eich cerdyn debyd neu gredyd. Rhowch eich rhif ffôn a bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn eich ffonio i drefnu'r taliad.

Os dewiswch chi 'Siec', anfonwch siec am £110 yn daladwy i 'Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus' gyda'r ffurflen hon. Rhowch enw'r rhoddwr ar gefn y siec.

### Gostyngiad ar y ffi ymgeisio

Os ydych ar incwm isel, efallai na fydd yn rhaid ichi dalu'r swm llawn.

Rhowch 'X' yn y blwch a llenwch ffurflen LPA120. Mae'r ffurflen hon yn y pecyn ymgeisio.

### A ydych chi wedi gwneud cais o'r blaen?

Os cafodd ffurflen eich LPA ei dychwelyd atoch oherwydd nad oedd modd ei chofrestru, cewch wneud cais eto gyda'ch ffurflen LPA newydd o fewn tri mis a thalu £55.

Rhowch 'X' yn y blwch yn yr adran hon a rhoi rhif eich achos. Bydd y rhif hwnnw yn y llythyr a ddaeth gyda'ch cais pan ddychwelyd ef.

## Rhagor o wybodaeth

All Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ddim cofrestru'ch LPA nes ichi dalu'r ffi.

Cost cofrestru un LPA oedd £110 pan anfonwyd y canllawiau hyn atoch. Mae'r ffioedd yn newid o bryd i'w gilydd. Gallwch sicrhau eich bod yn talu'r swm cywir yn www.gov.uk/power-of-attorney/how-much-it-costs neu ffonio canolfan gyswllt Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar 0300 456 0300.

### Gostyngiad ar y ffi: ffurflen LPA120

Os yw'r rhoddwr ar incwm isel, mae'n bosibl y bydd modd cael gostyngiad ar y ffi neu efallai na fydd yn rhaid talu ffi o gwbl.

Os nad yw honno gennych chi, ffoniwch ganolfan gyswllt Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar 0300 456 0300 i ofyn am gopi neu gallwch ei lawrlwytho o www.gov.uk/opg/power-of-attorney-forms

Mae canllawiau ar wahân ar gyfer ffurflen LPA120, sy'n esbonio'n fwy manwl:

- pwy sy'n gymwys i dalu ffi is neu i beidio â thalu ffi o gwbl
- pa brawf y bydd angen ichi ei anfon i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Llenwch y ffurflen hon a'i hanfon aton ni gyda ffurflen yr LPA a thystiolaeth o incwm isel y rhoddwr.

Os ydych ar frys i gofrestru'r LPA ac nad yw'r dystiolaeth gennych er mwyn cael gostyngiad, talwch y ffi lawn. Bydd gennych dri mis wedyn i wneud cais am ad-daliad neu ad-daliad rhannol drwy ddefnyddio LPA120.


## Pethau i'w cadw mewn cof

Er bod canllawiau ar wahân ar gyfer llenwi'r ffurflen hon, dylech wirio ambell beth cyn ei llofnodi a'i hanfon at Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Yn aml iawn gwrthodir rhoi gostyngiad, neu bydd y broses yn cael ei harafu, oherwydd bod pobl yn gwneud camgymeriadau:

- dim ots pwy sy'n gwneud cais i gofrestru'r LPA, bydd unrhyw ostyngiad yn cael ei seilio ar incwm y rhoddwr
- anfonwch dystiolaeth - os na wnewch chi hyn, bydd y cais am ostyngiad yn cael ei wrthod
- gwnewch yn siŵr bod y dystiolaeth ar gyfer incwm neu fudd-daliadau'r rhoddwr yn berthnasol i'r cyfnod iawn. Dylai gynnwys dyddiad eich cais i gofrestru
- dydy datganiadau banc ddim yn brawf o incwm ar eu pen eu hunain

# Rhan B5 – llofnod

## Llenwch adran 15



Rhaid i bwy bynnag sy'n gwneud cais i gofrestru'r LPA ddarllen adran 15 yn gyntaf a'i llofnodi.

Rydych yn llofnodi i ddweud eich bod yn gwneud cais i gofrestru'r LPA a'ch bod eisoes wedi rhoi gwybod i unrhyw bobl i'w hysbysu sydd wedi'u rhestru yn adran 6 ffurflen yr LPA. Byddwch yn gwneud hyn drwy anfon ffurflen LP3 at y bobl i'w hysbysu. Gweler Rhan C o'r canllawiau hyn.

Os bydd atwrneiod sy'n cael eu penodi i weithredu ar y cyd yn adran 3 o ffurflen yr LPA yn gwneud cais i gofrestru'r LPA, rhaid iddyn nhw i gyd lofnodi. Os oes mwy na phedwar atwrnai ar y cyd, gwnewch gopïau o'r dudalen hon i'r atwrneiod eraill eu llofnodi.

### Gwirio'ch atwrneiaeth arhosol

Defnyddiwch y rhestr wirio sy'n dilyn adran 15 i sicrhau bod yr LPA wedi'i gwneud yn gywir. Anfonwch eich dogfennau i gyd i:

**Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus**

**Blwch Post 16185**

**Birmingham**

**B2 2WH**

# Rhan C: Pobl i'w hysbysu

## Llenwch ffurflen LP3


Ffurflen
LP3
Ffurflen hysbysu pobl

Rhaid i bob unigolyn sydd i'w hysbysu gael ei ffurflen LP3 ei hun.

Ar gyfer pob un, llenwch eu manylion ar dudalen 1 o'r ffurflen, sef 'Hysbysiad o'r bwriad o gofrestru atwrneiaeth arhosol'.

Bydd gweddill y ffurflen - y tudalennau am y rhoddwr a'r atwrneiod - yr un fath ar gyfer pawb sydd i'w hysbysu. Gallwch eu llenwi unwaith, ac wedyn llungopïo'r fersiwn gyflawn o'r tudalennau hynny i bawb sydd i'w hysbysu.

Ar dudalen 2 o'r ffurflen, rhowch fanylion y rhoddwr. Wedyn ticiwch un o'r blychau ar gyfer y ddau gwestiwn nesaf:

- Pwy sy'n gwneud cais i gofrestru'r LPA?
- Pa fath o LPA sy'n cael ei chofrestru?

Yna, bydd angen ichi roi'r dyddiad pan lofnodwyd yr LPA gan y rhoddwr.

Dylech ychwanegu manylion yr atwrneiod.

Yn olaf, rhowch 'X' mewn un blwch i ddangos sut y cawson nhw eu penodi.

## Rhagor o wybodaeth

Os ydych yn gwneud cais i gofrestru dwy LPA - un ar gyfer penderfyniadau ariannol ac un ar gyfer iechyd a gofal - ac mai'r un bobl sydd i'w hysbysu ar y ddwy ffurflen, bydd angen ichi hysbysu pob un ohonynt ddwywaith.

Does dim angen ichi ddweud wrth y bobl i'w hysbysu am atwrneiod wrth gefn.

### Gwrthwynebiadau

Mae ffurflen LP3 yn esbonio hefyd pam a sut y caiff y bobl i'w hysbysu wrthwynebu cofrestru'r LPA.

**Os nad oes dim yn eu poeni**

Os nad oes dim byd yn poeni'r bobl i'w hysbysu, does dim angen iddyn nhw wneud dim byd.

**Os oes rhesymau dros wrthwynebu'r LPA**

Os bydd rhywun i'w hysbysu'n dymuno codi pryderon am eich LPA, bydd ganddyn nhw dair wythnos i gyflwyno'r gwrthwynebiad i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus o'r dyddiad y cawson nhw eu hysbysu.

Mae rheolau ynglŷn â'r math o bryderon y caiff pobl eu codi. Chân nhw ddim gwrthwynebu'ch LPA am y rheswm syml nad ydyn nhw'n ei hoffi. Mae'r LP3 yn esbonio'r rhesymau 'ffeithiol' a 'rhagnodedig' hyn.

## Ffurflen LP3: y manylion sydd eu hangen arnoch chi

Os nad chi wnaeth yr LPA, mae'n bosibl nad ydych chi'n gwybod ymhle i ddod o hyd i'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i lenwi LP3. Mae'r tabl hwn yn esbonio.

| Beth mae angen ichi ei wybod | Ymhle mae cael gafael ar y wybodaeth |
|---|---|
| Enwau a chyfeiriadau'r bobl i'w hysbysu | Adran 6 o ffurflen yr LPA. Mae hyd at bedwar wedi'u rhestru yma Os oes marc yn y blwch ar y gwaelod, mae pump o bobl i'w hysbysu |
| Pump o bobl i'w hysbysu? | Chwiliwch am gopi o ddalen barhad 1, lle mae 'na X wrth ymyl 'person i'w hysbysu'. |
| Manylion atwrnai | Mae'r manylion sydd eu hangen yn Adran 2 o'r LPA. Mae lle i bedwar atwrnai yma. Os oes 'X' yn y blwch ar waelod yr ail dudalen, mae 'na fwy na phedwar atwrnai |
| Mwy na phedwar atwrnai? | Chwiliwch am unrhyw gopïau o ddalen barhad 1, lle bydd 'X' wrth ymyl 'atwrnai'. |
| Sut mae'r atwrneiod wedi cael eu penodi? | Edrychwch ar adran 3 o'r LPA. Bydd tic ar un blwch ar y dudalen honno |
| Pa fath o LPA sy'n cael ei chofrestru? | Mae tudalen flaen yr LPA yn dangos hyn |
| Pa bryd y llofnododd y rhoddwr yr LPA? | Adran 9 o'r LPA. Mae'r dyddiad sydd ei angen arnoch chi yn y blwch llwyd o dan lofnod y rhoddwr |

# Rhan D – Dileu eich LPA, pryderon am atwrneiod, polisi preifatrwydd a chysylltu â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

## Dileu'ch LPA

Gallwch ddileu'ch LPA unrhyw bryd, cyn belled â'ch bod yn feddyliol alluog. Does dim ots a yw'r LPA wedi'i chofrestru neu beidio.

Os nad ydych wedi cofrestru'ch LPA, gallwch ddifetha'r ddogfen. Mae'n well dweud wrth bawb sy'n rhan ohoni, er enghraifft yr atwrneiod.

Os yw wedi'i chofrestru, rhaid ichi ysgrifennu 'gweithred ddiddymu' i'w dileu. Rhaid ichi lofnodi a dyddio'r weithred yng ngŵydd tyst, a rhaid i'r tyst hefyd lofnodi a dyddio'r weithred. Yna, rhaid ichi ei hanfon i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, gyda'r ddogfen LPA gofrestredig wreiddiol. Mae'n rhaid i chi hefyd ddweud wrth bob un o'ch atwrneiod eich bod yn canslo eich LPA.

Dyma enghraifft o weithred ddiddymu y gallwch ei defnyddio:

Mae'r weithred ddiddymu hon yn cael ei gwneud gan [enw'r rhoddwr] o [cyfeiriad y rhoddwr].

1. Rhoddais atwrneiaeth arhosol ar gyfer penderfyniadau ariannol/penderfyniadau ynghylch iechyd a gofal [dilëwch fel sy'n briodol] ar [y dyddiad pan lofnodwyd yr LPA] gan benodi [enw'r atwrnai cyntaf] o [cyfeiriad yr atwrnai cyntaf] a [enw'r ail atwrnai] o [cyfeiriad yr ail atwrnai] i weithredu fel atwrnai/atwrneiod ar fy rhan.
2. Rwy'n diddymu'r atwrneiaeth arhosol a'r awdurdod a roddwyd drwyddi.

Fe'i llofnodwyd a'i chyflwyno fel gweithred [llofnod y rhoddwr]<br>
Dyddiad llofnodi [dyddiad]<br>
Tystiwyd gan [llofnod y tyst]<br>
Enw llawn y tyst [enw'r tyst]<br>
Cyfeiriad y tyst [cyfeiriad y tyst]

Does dim rhaid i'r tystion fod yr un bobl ag a ddefnyddiwyd yn yr LPA wreiddiol.

Gallwch gael gwybod rhagor yn www.gov.uk/power-of-attorney/end

Os na allwch gysylltu â'r rhyngrwyd gartref, gall eich llyfrgell leol eich helpu.

## Pryderon am atwrneiod

Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn amddiffyn pobl nad oes ganddyn nhw'r galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain. Os bydd unrhyw un yn meddwl nad yw atwrneiod yn gweithredu er lles gorau rhoddwr, gallan nhw sôn am eu pryder wrth y Swyddfa, wrth yr heddlu neu wrth y gwasanaethau cymdeithasol.

## Preifatrwydd a'ch gwybodaeth bersonol

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi'r safonau y gallwch eu disgwyl pan fyddwn yn gofyn am eich gwybodaeth bersonol, yn ei defnyddio a'u rhannu. Mae'n dweud wrthych sut mae cael gafael ar y wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch.

Un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder yw'r 'rheolwr data' at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998 ac mae'n gyfrifol am y wybodaeth bersonol rydym yn ei chadw.

Rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth i'n helpu i gyflawni dyletswyddau'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

Byddwn yn casglu'ch gwybodaeth bersonol pan fyddwch yn gwneud y canlynol:

- yn gwneud cais i gofrestru atwrneiaeth arhosol
- yn gwneud cais i gofrestru atwrneiaeth arhosol gan ddefnyddio gwasanaeth digidol LPA yn www.gov.uk/power-of-attorney
- yn talu ffi drwy ddefnyddio cerdyn credyd, cerdyn debyd neu drwy ddebyd uniongyrchol
- yn cytuno i gymryd rhan yn ein hymchwil i gwsmeriaid
- yn cysylltu â ni i ofyn cwestiwn
- yn cwyno

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i wneud y canlynol:

- cofrestru eich atwrneiaeth arhosol
- cadw cofrestr o atwrneiaethau arhosol
- keep a register of powers of attorney
- prosesu ymchwil i gwsmeriaid
- gweinyddu

Pan fyddwn yn gofyn am eich gwybodaeth bersonol, rydym yn addo gwneud y canlynol:

- gofyn dim ond am y wybodaeth sydd ei hangen arnon ni
- sicrhau bod eich gwybodaeth yn ddiogel ac na chaiff neb heb awdurdod fynd ati
- sicrhau na fyddwn yn cadw'ch gwybodaeth yn hwy nag y bydd rhaid
- rhoi'r cyfle ichi ofyn inni newid y wybodaeth sydd gennym amdanoch os ydych chi'n meddwl ei bod hi'n anghywir

Yn gyfnewid am hynny, rydym yn gofyn i chi:

- sicrhau bod y wybodaeth a rowch inni'n gywir
- dweud wrthym am unrhyw newidiadau perthnasol i'ch sefyllfa bersonol (er enghraifft newid enw, teitl neu gyfeiriad) cyn gynted ag sy'n bosibl

## Cysylltu â ni

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus,
Blwch Post 16185, Birmingham B2 2WH

**Ebost:**
customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk

**Ffôn:** 0300 456 0300

**Ffôn testun:** 0115 934 2778

**Ffonio o dramor:** +44 300 456 0300

**O ddydd Llun tan ddydd Gwener:** 9am tan 5pm (ac eithrio dydd Mercher)

**dydd Mercher:** 10am tan 5pm

**Gwefan:** www.gov.uk/opg